



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Cwricwlwm Drafft i Gymru 2022: Ebrill 2019

CANLLAWIAU STATUDOL DRAFFT
MAES DYSGU A PHROFIAD

Celfyddydau Mynegiannol



CYNNWYS

Cyflwyniad i Faes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol	03
---	-----------

Yr Hyn sy'n Bwysig yn y Celfyddydau Mynegiannol

Mae archwilio'r Celfyddydau Mynegiannol ac archwilio drwyddynt yn dyfnhau ein gwybodaeth artistig ac yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o hunaniaeth, diwylliant a chymdeithas.	18
---	----

Mae ymateb a myfyrio, fel artist a chynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu am y Celfyddydau Mynegiannol a dysgu drwyddynt.	36
--	----

Mae gwaith creadigol yn cyfuno gwybodaeth a sgiliau gan ddefnyddio'r synhwyrâu, ysbrydoliaeth a dychymyg.	53
---	----

Geirfa	72
---------------	-----------

CYFLWYNIAD I FAES DYSGU A PHROFIAD Y CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL

Gall natur ddeinamig y Celfyddydau Mynegiannol ennyn diddordeb dysgwyr a'u cymell i ddatblygu i'r eithaf eu sgiliau creadigol ac artistig ynghyd â'u sgiliau perfformio.

Mae Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol yn canolbwyntio ar bum disgyblaeth, sef celf, cerddoriaeth, dawns, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol. Mae'r disgyblaethau hyn i gyd yn rhannu proses creadigol a sgiliau trosglwyddadwy cyffredin, ac eto mae perthyn i bob un ohonynt gorff o wybodaeth a set o sgiliau sy'n perthyn yn benodol i'r ddisgyblaeth honno. Bydd y maes dysgu a phrofiad hwn yn sicrhau bod gan y dysgwyr hawl i astudio a phrofi pob un o'r pum disgyblaeth.

Bydd Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol yn cynnig profiadau ystyrlon i'r dysgwyr a fydd yn eu galluogi i ddod i ddeall a gwerthfawrogi'r cymunedau amrywiol sydd yng Nghymru a'r byd ehangach. Boed fel cynulleidfa neu ymarferwyr celf, cerddoriaeth, dawns, drama neu ffilm a'r cyfryngau digidol, bydd y dysgwyr yn dod i wybod am eu diwylliant a'u cymuned eu hunain yn ogystal â rhai pobl eraill. Bydd hyn yn eu galluogi i archwilio amrywiaethau diwylliannol rhyngddynt a phobl eraill mewn lleoedd a chynodau gwahanol. At hyn, bydd yr wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd y maent yn eu datblygu yn eu galluogi i ymdrin â materion sy'n codi yn eu bywydau.

Fel rhan o brofiadau y Celfyddydau Mynegiannol, bydd dysgwyr yn ymwneud yn gorfforol, yn gymdeithasol ac yn emosiynol â'r maes, ac o ganlyniad bydd eu lles, eu hunan-barch a'u gwydnwch yn cael eu meithrin. Bydd hyn yn ei dro yn arwain at well hunanhyder.

Bydd Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol hefyd yn meithrin creadigrwydd a sgiliau meddwl yn feiriadol a fydd yn gymorth i'r dysgwyr ddatblygu eu gallu i holi cwestiynau, gwneud cysylltiadau, bod yn flaengar, datrys problemau, cyfathrebu, cydweithio ac adfyfrio'n feiriadol. Mae'r rhain i gyd yn sgiliau lefel uwch y mae galw amdanynt ymhlith cyflogwyr ac maent yn hanfodol er mwyn i ddysgwyr ddod yn ddinasyddion sy'n chwarae eu rhan yn yr unfed ganrif ar hugain.

Yn bwysig iawn, bydd y maes dysgu a phrofiad yn sicrhau bod y Celfyddydau Mynegiannol yn agored ac yn hygyrch i bawb, a thrwy'r ymagwedd gynhwysol hon, bydd yn ehangu gorwelion pob dysgwr.

Cwricwlwm gweddnwidiol

Mae'r Papur Gwyn *Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnwidiol*¹ yn nodi'r cynigion deddfwriaethol manwl ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022.

Y cynnig yw y bydd gofyn i leoliadau a ariennir nas cynhelir ac ysgolion ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni pedwar diben y cwricwlwm ac sy'n cynnwys y chwe maes dysgu a phrofiad. Bydd dysgu Cymraeg, Saesneg, addysg grefyddol, addysg cydberthynas a rhywioldeb, a'r tri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd, sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, i gyd yn ddyletswyddau statudol. Mae rhagor o wybodaeth ar sut y gall Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol gefnogi hyn yn adran 'Datblygu cwricwlwm eang a chytbwys' o'r ddogfen hon.

Bydd hawl gan leoliadau a ariennir nas cynhelir ac ysgolion i ddewis sut i gynllunio'u cwricwlwm ar lefel ysgol er mwyn cyflawni eu dyletswyddau cwricwlaidd. Fodd bynnag, wrth arfer yr hawl honno, bydd rhaid iddynt roi sylw i ganllawiau statudol a gaiff eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru. Yn ymarferol, golyga hyn y dylent ddilyn y canllawiau statudol oni bai bod ganddynt reswm da i beidio.

Nod y canllawiau statudol hyn ar gyfer Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol, sy'n rhan o'r canllawiau statudol ehangach ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022, yw rhoi fframwaith cenedlaethol y gall lleoliadau a ariennir nas cynhelir ac ysgolion ei ddefnyddio i ddatblygu eu cwricwlwm eu hunain. Ni fwriedir iddynt fod yn faes llafur hollgynhwysfawr, nac yn ganllaw ar gyfer trefnu amserlenni. Maent yn nodi:

- yr hyn y dylai lleoliadau a ariennir nas cynhelir ac ysgolion roi ystyriaeth iddo wrth lunio'u cwricwlwm, a sut y gellir ei strwythuro
- y disgwyliadau eang ar gyfer dysgwyr ar bob cam cynnydd ym Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol.

¹ beta.llyw.cymru/cenhadaeth-ein-cenedl-cwricwlwm-gweddnwidiol

Sut mae'r maes dysgu a phrofiad yn cefnogi pedwar diben y cwricwlwm

Drwy Faes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol, bydd athrawon/ymarferwyr yn annog plant a phobl ifanc i ddatblygu nid yn unig eu gallu i werthfawrogi gweithiau creadigol, ond hefyd eu doniau a'u sgiliau creadigol, artistig a pherfformio. Mae'n cynnig cyfleoedd i archwilio, mireinio a mynegi syniadau wrth feddwl yn greadigol a defnyddio'r dychymyg a'r synhwyrâu. Mae hefyd yn hyrwyddo eu gallu i ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â hunaniaeth bersonol a diwylliannol. Er mwyn ymwneud â'r maes dysgu a phrofiad hwn, mae gofyn am ymroddiad, dyfalbarhad a manwl gywirdeb; galluoedd sy'n fuddiol i ddysgu yn fwy cyffredinol.

Mae Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol yn ysbrydoli ac yn cymell dysgwyr gan eu bod yn rhoi cyfle iddynt brofi prosesau creadigol yn ogystal â gwaith creadigol pobl eraill. Mae hefyd yn ysgogi eu dulliau arbrofi a'u creadigrwydd eu hunain. Mae'n cynnig llawer o gyfleoedd i gael profiadau megis ymweld â theatrau ac orielau, ac i ddod ag arbenigedd ymarferwyr allanol i mewn i'r ystafell ddosbarth. Mae ymwneud â Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol hefyd yn darparu sail ar gyfer dysgu gydol oes, mynediad i yrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith ac, yn y pen draw, gall gyfrannu at economi lewyrchus. Bydd dysgwyr yn datblygu talentau a sgiliau sy'n hanfodol i ddyfodol a ffyniant Cymru.

Mae Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol yn datblygu **dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes** drwy eu hannog i fynd i'r afael â her ac anelu at lwyddiant. Mae cynnig cyd-destunau dilys a chyfoethog lle y gall dysgwyr gydweithio yn datblygu eu gallu i arwain a chwarae gwahanol rannau mewn timoedd yn effeithiol ac yn gyfrifol. Mae hyn yn cryfhau eu sgiliau cyflogadwyedd, yn ogystal â'r galw sydd arnynt i reoli eu hunain a'u hadnoddau mewn ffyrdd mentrus.

Mae'r wybodaeth a'r sgiliau a enillir drwy'r Celfyddydau Mynegiannol yn datblygu creadigrwydd y dysgwyr nid yn unig fel artistiaid ond hefyd yn fwy cyffredinol, gan eu bod yn cyfoethogi eu gallu i feddwl yn greadigol. Mae gwerthuso beirniadol, sy'n rhan allweddol o'r broses greadigol, hefyd yn eu helpu i ddod yn **gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith**, ac, yn ogystal, mae'n datblygu eu gwydnwch, sydd, yn ei dro, yn eu cefnogi i ddod yn **unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas**. At hyn, mae'r gwerthuso sy'n rhan o'r broses greadigol yn galluogi'r dysgwyr i archwilio materion cymhleth. Mae'n eu galluogi i herio canfyddiadau a rhagdybiaethau ac i ddod o hyd i atebion sy'n arwain at well dealltwriaeth o'u hunaniaeth ddiwylliannol eu hunain ynghyd â hunianaethau diwylliannol pobl, lleoedd a chyfnodau eraill. Drwy'r profiad hwn, caiff y dysgwyr gefnogaeth i ddod yn **ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd**. Yn olaf, wrth iddynt gael mwynhad a boddhad personol drwy fynegi eu hunain yn eu gwaith creadigol daw'r dysgwyr yn fwy hyderus, ac mae hynny i gyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyfoethogi ansawdd eu bywydau.

DATGANIADAU O'R HYN SY'N BWYSIG YN Y CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL

Mae archwilio'r Celfyddydau Mynegiannol ac archwilio drwyddynt yn dyfnhau ein gwybodaeth artistig ac yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o hunaniaeth, diwylliant a chymdeithas.

Mae'r Celfyddydau Mynegiannol yn cynnig cyfrwng pwerus i ddysgwyr archwilio nid yn unig eu hetifeddiaeth ddiwylliannol eu hunain ond hefyd etifeddiaeth ddiwylliannol gwahanol bobl, gwahanol leoedd a gwahanol gyfnodau. Bydd y maes dysgu a phrofiad yn gwneud yn fawr o hyn. Bydd yn sicrhau bod dysgwyr, drwy'r Celfyddydau Mynegiannol, yn cael eu galluogi i archwilio hunaniaethau a chymdeithasau o bob cwr o'r byd, gan werthfawrogi arwyddocâd amrywiol ddiwylliannau Cymru, ei thraddodiadau a'i threftadaeth unigryw.

Mae profi'r Celfyddydau Mynegiannol yn cynnwys dwy broses sylfaenol: ar y naill law archwilio gwaith creadigol pobl eraill ac, ar y llall, creu gwaith eich hun. Er mwyn i'r dysgwyr gael ymwneud â'r ddwy broses, bydd y maes dysgu a phrofiad hwn yn rhoi cyfleoedd iddynt archwilio genres, technegau, adnoddau, deunyddiau ac arferion a fydd yn eu tro yn eu galluogi i ddatblygu'n unigolion chwilfrydig a chreadigol.

Byddant yn archwilio sut y defnyddir y Celfyddydau Mynegiannol i ffurfio a mynegi eu hunaniaeth bersonol, gymdeithasol a diwylliannol. Byddant hefyd yn archwilio sut y gellir defnyddio'r Celfyddydau Mynegiannol i gwestiynu a herio safbwyntiau cyffredin ac i ysgogi newid personol a chymdeithasol.

Drwy archwilio ffurfiau a disgyblaethau celfyddydol, boed drwy chwarae neu ymchwil fwy ffurfiol, bydd dysgwyr yn dod i ddeall y ffordd y mae'r Celfyddydau Mynegiannol yn cyfleu ystyr drwy ddefnyddio dulliau clywedol, corfforol, geiriol, gweledol a thechnolegol. Bydd yr archwilio hwn yn ei dro yn eu galluogi i ddatblygu eu gwaith eu hunain.

Yn ogystal â hyn, ym Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol bydd dysgwyr yn dod i ddeall sut y mae'r celfyddydau yn llywio, yn mynegi ac yn rhannu syniadau a theimladau. Byddant yn datblygu eu dychymyg ac yn tynnu ar eu profiadau, eu sgiliau a'u doniau fel eu bod yn dod yn artistiaid creadigol eu hunain.

Mae ymateb a myfyrio, fel artist a chynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu am y Celfyddydau Mynegiannol a dysgu drwyddynt.

Mae ymateb i'r Celfyddydau Mynegiannol ac ymateb drwy'r Celfyddydau Mynegiannol yn ysgogi ein hemosiynau a'n deallusrwydd. Gall yr ymateb fod yn adwaith synhwyrdd syml i ysgogiad artistig neu'n ddadansoddiad beirniadol o waith creadigol. Bydd gallu dysgwyr i fyfyrion yn dyfnhau wrth iddynt feithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r ffordd y caiff y Celfyddydau Mynegiannol eu creu a pham. Mae ymateb i'r Celfyddydau Mynegiannol, a thrwyddynt, yn herio dysgwyr i fyfyrion ac ystyried effeithiolrwydd eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill. Er mwyn ymateb yn effeithiol, bydd angen iddynt ffurfio perthnasau cadarnhaol ag eraill.

Mae rhannu'r prosesau y maent wedi'u defnyddio i gyflawni eu bwriad artistig yn cyfrannu at ddatblygu creadigrwydd y dysgwyr. Drwy fyfyrion ar eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill, maent yn dysgu sgiliau pwysig mireinio a dadansoddi. Mae hyn, yn ei dro, yn eu helpu i ymchwilio i atebion creadigol i broblemau ac i ystyried cyn cymryd risg. Mae'r gallu i werthuso eu dysgu eu hunain yn rhan bwysig o'r ymateb creadigol ac, felly, bydd dysgwyr yn cael eu hannog i ystyried sut y gallant wella eu gwaith, ac ymateb i adborth pobl eraill. Wrth wneud hyn, maent yn dod yn fwy gwydn ac yn meithrin hyder yn eu gallu creadigol.

Bydd dysgwyr yn ymateb i waith pobl eraill ac yn myfyrio arno, gan gynnwys gwaith eu cyfoedion ac ymarferwyr creadigol cydnabyddedig o Gymru a thu hwnt. Wrth wneud hyn, maent yn defnyddio ac yn ymestyn eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o'r Celfyddydau Mynegiannol.

Yn ogystal â gwybodaeth a sgiliau sy'n perthyn yn benodol i'r pum disgyblaeth, mae dysgu am y Celfyddydau Mynegiannol yn gofyn am wybodaeth a sgiliau rhyngddisgyblaethol. Felly, sicrhewr bod gan ddysgwyr yr eirfa a'r ddealltwriaeth feirniadol sydd eu hangen arnynt i ystyried gwaith cyfoes a hanesyddol mewn amrywiaeth o gyfryngau, ffurfiau, genres ac arddulliau.

Mae gwaith creadigol yn cyfuno gwybodaeth a sgiliau gan ddefnyddio'r synhwyrâu, ysbrydoliaeth a dychymyg.

Mae creu yn y Celfyddydau Mynegiannol yn cwmpasu amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys cynllunio, drafftio, dyfeisio, gwneud, coreograffu, siapio, cyfansoddi a golygu yn ogystal â pherfformio, cyflwyno, rhannu, arddangos a chynhyrchu.

Mae mynd ati i greu yn galluogi dysgwyr i ystyried beth y maent yn ei wybod am y Celfyddydau Mynegiannol a sut y gallant ddefnyddio eu sgiliau. Mae creu hefyd yn galw am harneisio pŵer dychymyg ym mhob un o'r disgyblaethau.

Mae creu yn gofyn i ddysgwyr ddatblygu a dangos rheolaeth ar amrywiaeth o sgiliau creadigol ym mhob disgyblaeth. Mae'r broses greadigol yn galluogi'r dysgwyr i gyd i ymdrin ag amrywiaeth o ffurfiau a disgyblaethau ac i gyfathrebu drwyddynt. Gallant ymwneud â nhw fel disgyblaethau unigol neu fel ffurfiau rhyngddisgyblaethol yn unol â diddordebau, sgiliau a thalentau personol y dysgwyr.

Drwy greu, bydd dysgwyr yn gweithio'n annibynnol ac yn cydweithredu fel cyd-greawdwr o fewn ac ar draws y disgyblaethau. Wrth wneud hyn, cânt gyfleoedd i fod yn arloesol ac yn feiddgar, i greu gwaith unigol ac i ddatblygu eu hunaniaeth eu hunain fel artistiaid yng Nghymru. Os bydd eu syniadau gwreiddiol yn gofyn am ddulliau gweithredu newydd, bydd angen i ddysgwyr ddangos gallu i fod yn amryddawn a hyblyg, gan gymryd risg i addasu a chreu'n fyrfyr.

O ran mentergarwch, drwy ymwneud â'r broses greadigol, bydd dysgwyr yn adnabod cyfleoedd i drawsnewid eu syniadau i fod yn rhai sydd â gwerth masnachol a diwylliannol. Byddant yn defnyddio eu sgiliau creadigol i wireddu pob math o uchelgais. Byddant hefyd yn datblygu dyfalbarhad a gwydnwch er mwyn mireinio eu sgiliau creadigol a deall bod hyn yn rhan bwysig o'r broses greadigol. Yn gryno, bydd dysgwyr yn datblygu talentau a sgiliau sy'n hanfodol i ffyniant Cymru yn y dyfodol.

Y berthynas rhwng y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Celfyddydau Mynegiannol

Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Celfyddydau Mynegiannol yw'r broses greadigol, h.y. archwilio, ymateb, myfyrio a chreu. Mynegir hyn fel tri datganiad gwahanol am yr hyn sy'n bwysig ym Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol. Fodd bynnag, mae'r datganiadau hyn yn gydgyssylltiedig, a dylid cofio hynny wrth gynllunio ar gyfer dysgu ac addysgu.

Mae archwilio'r Celfyddydau Mynegiannol ac archwilio drwyddynt yn dyfnhau ein gwybodaeth artistig ac yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o hunaniaeth, diwylliant a chymdeithas – mae'r datganiad hwn yn ymwneud yn bennaf â'r broses ymholi.

Mae ymateb a myfyrio, fel artist a chynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu am y Celfyddydau Mynegiannol a dysgu drwyddynt – mae'r datganiad hwn yn ymwneud yn bennaf ag ymateb, myfyrio a gwerthuso.

Mae gwaith creadigol yn cyfuno gwybodaeth a sgiliau gan ddefnyddio'r synhwyrâu, ysbrydoliaeth a dychymyg – mae'r datganiad hwn yn ymwneud yn bennaf â chreu.

Nid yw'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn dilyn trywydd unionsyth. Maent yn gydgyssylltiedig. Gyda'i gilydd, maent yn galluogi dysgwyr i ymwneud yn llawn â'r broses greadigol a rennir gan bum disgyblaeth y Celfyddydau Mynegiannol.

Fel rhan o'r broses greadigol, mae dysgwyr yn gallu archwilio, creu ac ymateb i'w gwaith eu hunain wrth gael profiadau cyfoethog, diliys. Er enghraifft, drwy archwilio genre, arddull, artist, ac ati, mae dysgwyr yn dechrau ffurfio barn am waith creadigol pobl eraill a'i werthfawrogi yn ogystal ag arbrofi gyda gwahanol ddeunyddiau a phrosesau, ac ati. Gallant wedyn ddefnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n cael eu hennill fel rhan o'r archwilio hwn i ysbrydoli eu gwaith creadigol eu hunain, gan barhau i fyfrio ar eu gwaith fel rhan o'r broses greadigol.

Cynnydd o fewn y maes dysgu a phrofiad hwn

Nid yw cynnydd yn y Celfyddydau Mynegiannol yn broses sy'n dilyn trywydd unionsyth, ac nid oes un llwybr sy'n gyffredin i bawb. Gall dysgwyr symud yn ôl ac ymlaen yn hawdd wrth iddynt brofi gweithgareddau'r Celfyddydau Mynegiannol, ac mae gwahanol ddysgwyr yn debygol o wneud cynnydd mewn ffyrdd gwahanol iawn.

Mae'n amlwg bod yr amgylchedd dysgu, gan gynnwys ansawdd yr addysgu, yn ffactor pwysig wrth hwyluso cynnydd dysgwyr. Felly, mae cynyddu lefel yr her a soffistigeiddrwydd cyd-destunau'r Celfyddydau Mynegiannol yn ffactorau pwysig.

Bydd lleoliadau a ariennir nas cynhelir ac ysgolion yn datblygu eu cwricwla eu hunain yn y Celfyddydau Mynegiannol yn unol â'r canllawiau, gan ymateb i'w dysgwyr a'u hardal leol. Deellir, er bod dysgwyr unigol yn datblygu ar wahanol gyflymder, y dylai pob dysgwr allu manteisio ar bob agwedd ar Faes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol.

Mae'r pedair egwyddor cynnydd yn y Celfyddydau Mynegiannol yn ddefnyddiol wrth ddisgrifio cynnydd dysgwyr yn fras, ond gan lwyddo i gyfleu rhywfaint o natur 'droellog' gwaith dysgu yn y Celfyddydau Mynegiannol. Dylid ystyried yr egwyddorion cynnydd isod ochr yn ochr â'r profiadau, yr wybodaeth a'r sgiliau sy'n gysylltiedig â phob cam cynnydd ym mhob datganiad o'r hyn sy'n bwysig.

Cymhlethdod: Gall materion yr ymdrinnir â nhw gan ddysgwyr iau gael eu hystyried gan ddysgwyr hŷn mewn ffyrdd mwy cymhleth a soffistigedig.

Rheolaeth: Dylai dysgwyr ennill mwy a mwy o reolaeth dros ddulliau mynegi'r Celfyddydau Mynegiannol.

Dyfnder: Mae dysgwyr yn symud o amrywiaeth eang o brofiadau yn y Celfyddydau Mynegiannol i archwilio eu dysgu mewn mwy o ddyfnder.

Annibyniaeth: Mae dysgwyr yn dod yn fwyfwy annibynnol.

Datblygu cwricwlwm eang a chytbwys

Llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol

Mae cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn ategu bron yr holl ddysgu ac maent yn hanfodol er mwyn i ddysgwyr allu cymryd rhan yn llwyddiannus ac yn hyderus yn y byd modern.

Llythrennedd

Mae'r Celfyddydau Mynegiannol yn cynnig amrywiaeth o gyd-destunau cyfoethog lle y gellir atgyfnerthu, datblygu, cymhwyso ac ehangu sgiliau llythrennedd dysgwyr.

Bydd archwilio a dod i gysylltiad ag amrywiaeth o destunau hefyd yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu strategaethau darllen ac, yn deillio o hynny, i ddyfnhau gwybodaeth artistig, gan gymharu gwaith neu berfformiadau ar ffurf ysgrifenedig, darllen ac ysgrifennu sgriptiau, a darllen am waith pobl eraill. Gellir defnyddio gweithgareddau ysgrifennu sgriptiau i gefnogi'r amrywiaeth lawn o ddyfeisiau atalnodi er mwyn amrywio'r cyflymder, egluro ystyr, osgoi amwysedd a chreu effeithiau bwriadol.

Caiff llafaredd ar bob ffurf hefyd ei ddatblygu drwy actio, trafod, ymateb a myfyrio ar waith, chwarae rôl, caneuon, perfformio a chyflwyno, prosesau cynllunio a chwestiynu.

Rhifedd

Mae'r Celfyddydau Mynegiannol yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr arloesi, yn ogystal â chyfleoedd creadigol i feithrin sgiliau rhifedd mewn amrywiaeth o gyd-destunau diddorol.

Ym maes dawn, gellir helpu dysgwyr wrth iddynt ddod yn fwy cyfforddus yn arddangos cysyniadau megis siâp, gofod a mesur, patrwm a dilyniant, llwybr, safle, cydberthnasau, dimensiwn safbwyntiol, patrymau, ailadrodd, gan feithrin felly dealltwriaeth gadarnach o'r cysyniadau hyn. Gall y cyfryngau digidol a drama gynnig profiadau dysgu gwerth chweil a go iawn, megis amseru a chyllidebau.

Mae'n bosibl mai cariad dysgwyr tuag at gerddoriaeth a chaneuon fydd yn cyflwyno rhifau iddynt ac, wrth iddynt ddechrau deall y cydberthnasau â rhifau drwy ganeuon mewn ffordd fwy aeddfed, bydd cerddoriaeth hefyd yn datblygu strwythur a ffurf, patrymau a rhythm, ailadrodd, ymadroddion, adrannau, rowndiau a chanonau.

Bydd y celfyddydau gweledol hefyd yn darparu'r cyd-destun ar gyfer cysyniadau megis siâp, gwerthfawrogi patrymau, ymwybyddiaeth ofodol a mesuriadau.

Cymhwysedd digidol

Mewn byd sy'n newid yn gyson, mae cymhwysedd digidol yn chwarae rhan gynyddol bwysig ym mywydau ein dysgwyr. Mae'r Celfyddydau Mynegiannol yn cynnig llawer o gyfleoedd i ddysgwyr ddod â'r celfyddydau yn fyw gan ddefnyddio sgiliau digidol.

Mae'r cyfryngau digidol yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd penodol i ddatblygu cymhwysedd digidol a darparu'r cyd-destunau ar gyfer esblygu syniadau. Gall dysgwyr ddatblygu a newid algorithm ar gyfer dilyniant cynhyrchu ffilm er mwyn dangos y deunydd a ffilmiwyd yn nhrefn y lleoliadau yn hytrach na threfn gronolegol.

Bydd cyfleoedd megis cydweithredu, hawliau digidol, drama, adborth adeiladol, trwyddedu, technoleg cerddoriaeth, perchenogaeth, cynhyrchu, cadw a rhannu gwaith digidol yn digwydd yn naturiol drwy'r maes dysgu a phrofiad.

Y dimensiwn Cymreig a phersbectif rhyngwladol

Mae traddodiad Celfyddydau Mynegiannol cyfoethog ac amrywiol yng Nghymru. Fel rhan annatod o gwricwlwm y Celfyddydau Mynegiannol, bydd dysgwyr yn profi pob agwedd ar ein diwylliant amrywiol yng Nghymru, ar lefel leol a chenedlaethol. Mae gan bob dysgwr yr hawl i ddysgu am y Celfyddydau Mynegiannol yng Nghymru. Rhoddir pwyslais ar ymarferwyr creadigol hanesyddol a chyfoes o Gymru o bob disgyblaeth yn y maes dysgu a phrofiad. Drwy hyn, bydd dysgwyr yn gwerthfawrogi arwyddocâd Cymru a'r diwylliant Cymreig ac yn atgyfnerthu eu dealltwriaeth o hunaniaeth Cymru yn y byd. Bydd dysgwyr yn profi'r Celfyddydau Mynegiannol ar lefel fyd-eang o oedran cynnar, gan ddatblygu cyfoeth ac amrywiaeth yn eu dealltwriaeth ac yn eu gwaith creadigol. Mewn byd cynyddol ryng-gysylltiedig, bydd dysgwyr yn cael eu hysgogi gan ystod eang o waith creadigol byd-eang, i ddylanwadu ar eu gwaith eu hunain ac i werthfawrogi ac ymateb i amrywiaeth ddiwylliannol.

Dylid ystyried cynnwys y canlynol.

- Ffocws ar ddiwylliant Cymreig a thraddodiadau Cymru er mwyn sbarduno dysgu pellach drwy brofi gwaith artistiaid, gweithiau creadigol, gwaith cerddorion, perfformwyr, perfformiadau a lleoliadau, o bersbectif cyfoes a thraddodiadol.
- Archwilio gweithiau creadigol, gan wybod pam y cawsant eu creu a chan feithrin dealltwriaeth dysgwyr o faterion lleol, cenedlaethol a byd-eang.
- Y ddealltwriaeth fod gan Gymru dreftadaeth gerddorol gref, y caiff ei hadnabod fel gwlad y gân a bod ganddi sîn gerddorol sy'n esblygu'n gyson.
- Cyfranogiad mewn gweithdai yn seiliedig ar sgiliau neu arddangosiadau gydag ymarferwyr creadigol o'r gymuned leol ac yn genedlaethol.
- Meithrin hunaniaeth y dysgwyr eu hunain fel artistiaid a aned yng Nghymru, a meithrin y doniau a'r sgiliau sy'n hanfodol er mwyn sicrhau ffyniant Cymru yn y dyfodol.
- Gofyn am gyngor ac adborth gan ymarferwyr creadigol wrth gynllunio ac ymgymryd â phrosiectau newydd.
- Cymryd rhan mewn prosiectau cymunedol yn seiliedig ar y celfyddydau.
- Gwyllo a gwrando ar berfformiadau byw neu gyflwyniadau yn ardal leol y dysgwyr eu hunain a/neu ar lwyfannau digidol ac ymateb iddynt.
- Galluogi dysgwyr i brofi'r holl elfennau uchod yn y Gymraeg, yn y Saesneg ac mewn ieithoedd cymunedol.
- Defnyddio adnoddau Cymraeg traddodiadol a chyfoes.

Sgiliau ehangach

Bydd dysgwyr yn meithrin sgiliau trosglwyddadwy pwysig o ran meddwl yn feirniadol a datrys problemau, cynllunio a threfnu, creadigrwydd ac arloesi, ac effeithiolrwydd personol.

Meddwl yn feirniadol a datrys problemau

Tynnir sylw at fireinio gwaith yn y datganiad o'r hyn sy'n bwysig *'Mae ymateb a myfyrio, fel artist a chynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu am y Celfyddydau Mynegiannol a dysgu drwyddynt'* ac mae hefyd yn rhan o'r broses greu. Mae'n cael ei annog drwy'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Celfyddydau Mynegiannol, a thrwy hynny feithrin sgiliau hunanwerthuso a myfyrio. Mae'r gwaith gwerthuso sy'n rhan o'r broses greadigol yn galluogi dysgwyr i feithrin sgiliau myfyriol, cwestiynu a datrys problemau, yn ogystal â herio canfyddiadau a dod o hyd i ddatrysiadau. Bydd dysgwyr yn dangos gwydnwch wrth werthuso eu gwaith mewn ffordd feirniadol a disgwylir iddynt ymateb yn gadarnhaol i adborth beirniadol. Bydd dysgwyr yn meithrin sgiliau datrys problemau drwy arbrofi ag amrywiaeth o dechnegau celfyddydol ac artistig. Byddant yn mynd ati i fyfrio ar eu dysgu a'u profiadau personol, yn defnyddio gwybodaeth bersonol, yn gofyn cwestiynau ac yn herio rhagdybiaethau.

Cynllunio a threfnu

Bydd dysgwyr yn cynllunio gwaith creadigol. Byddant yn rhoi prosesau myfyriol, beirniadol a chreadigol ar waith er mwyn gwneud synnwyr o syniadau a phrofiadau. Drwy'r Celfyddydau Mynegiannol, caiff dysgwyr eu hannog i gynllunio, pennu eu nodau eu hunain a rheoli adnoddau. Mae'r gallu i feddwl am syniadau, datblygu chwilfrydedd, archwilio a rhoi syniadau ar waith yn hanfodol i'r Celfyddydau Mynegiannol.

Creadigrwydd ac arloesi

Mae creadigrwydd ac arloesi yn hanfod i ddatganiad o'r hyn sy'n bwysig *'Mae gwaith creadigol yn cyfuno gwybodaeth a sgiliau gan ddefnyddio'r synhwyrâu, ysbrydoliaeth a dychymyg'*. Disgwylir i ddysgwyr ddylanwadu ar eu creadigrwydd eu hunain a'i lywio, meithrin eu gwybodaeth creadigol a chyfuno adnoddau er mwyn gwella eu proses creadigol eu hunain.

Effeithiolrwydd personol

Bydd dysgwyr yn dod yn fentrus, yn flaengar ac yn wydn drwy reoli eu hunain a'u hadnoddau, a thrwy hynny wella eu sgiliau cyflogadwyedd. Byddant yn goddef methiant, gan ddatblygu gwydnwch a dathlu'r methiannau y byddant yn dysgu ohonynt. Drwy'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Celfyddydau Mynegiannol, bydd dysgwyr yn meithrin hunanhyder, hunan-barch, annibyniaeth, sgiliau cyfathrebu, ac ymwybyddiaeth gymdeithasol a diwylliannol.

Gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith

Dysgu o wybodaeth am yrfaeodd a'r farchnad lafur

Mae'n hanfodol i ddysgwyr gael gafael ar wybodaeth o ansawdd uchel am yrfaeodd a'r farchnad lafur ac iddynt feddu ar ddealltwriaeth o'r hyn y mae hynny'n ei olygu iddynt hwy, er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus a chynaliadwy am eu gyrfa.

Yn ôl ffigurau a ryddhawyd ddiwedd 2017, mae'r sector creadigol yn y DU yn tyfu ddwywaith mor gyflym â'r economi genedlaethol. Mae un o bob unarddeg o swyddi yn y DU yn y diwydiannau creadigol. Mae'r sector wedi tyfu 20 y cant ers 2011 ac ar hyn o bryd, mae'n cynhyrchu £84.1 biliwn i economi'r DU. Yng Nghymru, mae 84,000 o bobl yn gweithio yn y sector creadigol ac fel y cyfryw, mae'r sector yn un o flaenoriaethau penodol Llywodraeth Cymru. Mae'r diwydiannau creadigol yng Nghymru yn cynnwys hysbysebu a marchnata; pensaernïaeth; crefftau; dylunio cynhyrchion, graffeg

a ffasiwn; ffilm, teledu, fideo a radio; ffotograffiaeth; gwasanaethau TG, meddalwedd a chyfrifiadurol; cyhoeddi; amgueddfeydd, orielau a llyfrgelloedd; cerddoriaeth, y celfyddydau perfformio a'r celfyddydau gweledol.

Cysylltu'r maes dysgu a phrofiad â gyrfaedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith

Dylid annog dysgwyr i ymgymryd â gwaith ymchwil ac i ystyried y cysylltiadau rhwng y Celfyddydau Mynegiannol a'r llwybrau gyrfa sydd ar gael iddynt. Mae'r Celfyddydau Mynegiannol yn sicrhau bod dysgwyr yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i ddilyn gyrfaedd yn y diwydiannau creadigol. Mae amrywiaeth helaeth o yrfaedd ar gael yn yr amgylcheddau creadigol hyn, o yrfaedd pensaernïol a dylunio, gyrfaedd cymorth technegol, gyrfaedd crefft traddodiadol a newydd, gyrfaedd ym maes perfformiad a chynhyrchu, a gyrfaedd rheoli. Ceir gyrfaedd hefyd ym maes marchnata cynhyrchion creadigol, gwerthu, archif a churadu, ymchwil a datblygiad, ysgrifennu a chyfansoddi cerddoriaeth. Yn bwysicach, bydd y sgiliau trosglwyddadwy sydd wrth wraidd y Celfyddydau Mynegiannol yn cyfrannu at baratoi gweithlu'r dyfodol ar gyfer proffesiynau a swyddi nad ydynt eto'n bodoli, er mwyn diwallu anghenion diwydiannau creadigol newydd a rhai a ddaw i'r amlwg.

Mae'n bwysig pwysleisio bod y sgiliau a gaiff eu meithrin drwy'r Celfyddydau Mynegiannol yn gwbl drosglwyddadwy ac yn werthfawr iawn yn y farchnad gyflogaeth ehangach. Ceir tystiolaeth glir bod sgiliau yn y Celfyddydau Mynegiannol yn cyfrannu at angen yr economi ehangach am arweinyddiaeth, creadigrwydd ac arloesi, meddylfryd dylunio a gallu i gydweithio a gweithio fel tîm. Mae nodweddion eraill yn cynnwys agwedd at ymarfer cysyniadol sy'n seiliedig ar werthoedd ac ymdrechion moesegol i greu, gan fodloni terfynau amser, er mwyn cyflwyno gwaith ystyrion ac, efallai yn anad dim, gallu cysefin i gynnal ymchwiliadau gwerthfawrogol er mwyn arwain a datblygu newid. Yn hyn o beth, mae'r Celfyddydau Mynegiannol yn gallu cyfrannu'n sylweddol ac yn uniongyrchol at sgiliau gweithlu deinamig a hyblyg a fydd yn hanfodol ar gyfer economi'r unfed ganrif ar hugain.

Mae cynnydd dysgwyr o ran gyrfaedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith yn rhan o gontinwrm dysgu ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 16 oed. Gallai llwyddiant i ddysgwyr ysgol gynradd gynnwys:

- chwarae rôl ar gyfer amrywiaeth o wahanol swyddi
- y gred y gallant gyflawni unrhyw swydd – gan fynd i'r afael â stereoteipiau rhywedd
- cyfathrebu â'r bobl yn eu cymuned am y gwahanol swyddi y maent yn eu gwneud a'r boddhad a all ddeillio ohonynt.

Drwy wneud cynnydd dysgu, gallai llwyddiant i ddysgwyr 16 oed gynnwys:

- dangos a chymhwyso'r sgiliau a ddysgwyd mewn perthynas â'r byd gwaith
- adnabod diddordebau, cryfderau a sgiliau er mwyn gwneud dewisiadau gwybodus ôl-16
- deall ac arddangos y mathau o ymddygiad y mae cyflogwr yn dymuno eu gweld mewn cyflogai da
- gwerthuso risg wrth ddatblygu syniad busnes ac ystyried gwahanol ffyrdd o sefydlu a chynnal menter.

Profiadau sy'n gysylltiedig â gwaith

Mae dysgwyr yn datblygu diddordebau, cryfderau, sgiliau a dyheadau drwy brofiadau yn yr ysgol a thu hwnt i'r ysgol. Mae amrywiaeth o bartneriaid ynghlwm â'r teithiau cyffrous hyn drwy gyd-ddylunio a chyd-gyflwyno, a chyda'i gilydd maent yn llywio penderfyniadau dysgwyr am eu dyfodol a'r llwybrau y byddant yn eu dilyn. Gall cyfleoedd megis ymweliadau, siaradwyr gwadd a gweithgareddau ymarferol, helpu i wella'r dysgu a'i roi mewn cyd-destun.

Mae cydweithredu a chyfleoedd i gysylltu ag unigolion a chyflogwyr, e.e. ymarferwyr celf, gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant, cwmnïau cynhyrchu ffilm a theledu, gweithwyr proffesiynol yn y cyfryngau digidol a'r cyfryngau darlledu, cerddorion a dawnswyr, yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddysgu am waith, cyflogaeth a'r sgiliau a gaiff eu gwerthfawrogi yn y gweithle.

Gall dysgwyr ddefnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau a feithriniwyd drwy gymryd rhan mewn profiadau sy'n gysylltiedig â gwaith i ddatblygu gweithgareddau menter llwyddiannus. Yn y Celfyddydau Mynegiannol, gall y rhain gynnig profiad dysgu dilys sy'n arwain at gynaliadwyedd i'r Celfyddydau Mynegiannol ac sy'n datblygu dysgwyr fel cyfranwyr creadigol a mentrus, gan greu cysylltiadau â'r byd gwaith.

Deall cyfleoedd ôl-16 ac addysg uwch

Mae'n hanfodol bod dysgwyr yn ymwybodol o'r holl gyfleoedd sydd ar gael iddynt ôl-16. Felly, yn ogystal â deall am gyflogaeth, hyfforddiant a phrentisiaethau, dylid rhoi gwybodaeth i ddysgwyr am ddarparwyr dysgu a chynnig y cyfle iddynt ymgysylltu ag amrywiaeth o ddarparwyr o'r fath. Dylai'r cyfleoedd ymgysylltu gynnwys mynychu ffeiriau gyrfaedd a sgiliau, sgysiau gan ddarparwyr addysg bellach ac uwch ac ymweliadau gan y darparwyr hynny, yn ogystal â chyflwyniadau gan fyfyrwyr mewn addysg bellach neu uwch. Dylid hefyd gyfeirio dysgwyr at adnoddau ymchwil ar-lein sy'n cynnig gwybodaeth am gysiau a chynnydd, er mwyn eu helpu i ddeall yr amrywiaeth o gyfleoedd dysgu sydd ar gael, ac i helpu i godi eu dyheadau a chynnig sail iddynt allu gwneud penderfyniadau gwybodus.

Addysg cydberthynas a rhywioldeb

Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb yn gyfunol, yn holistaidd ac yn barhaus drwy gydol taith dysgwyr drwy addysg a thu hwnt. Mae'r Celfyddydau Mynegiannol yn hyrwyddo dealltwriaeth o hawliau, gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a hawliau dynol cyffredinol. Drwy archwilio, creu ac ymateb i amrywiol ddarnau o waith creadigol, eir i'r afael â materion heriol, a chaiff dysgwyr eu grymuso i wneud penderfyniadau gwybodus ac i gyfathrebu'n effeithiol.

Cydberthnasau

Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o gydberthnasau drwy ddrama, cerddoriaeth, chwarae rôl, dawns a ffilm, ac yn ystyried y cydberthnasau a gaiff eu portreadu yn y celfyddydau gweledol yn ogystal â'r cydberthnasau rhwng y crewr a'r gynulleidfa.

Gwerthoedd, hawliau, diwylliant a rhywioldeb

Mae'r Celfyddydau Mynegiannol yn cynnig profiadau dysgu cyfoethog ac amrywiol sy'n galluogi dysgwyr i archwilio eu diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill. Caiff gwybodaeth a dealltwriaeth eu datblygu ymhellach drwy greu ac ymateb i waith creadigol o wahanol ddiwylliannau.

Deall rhywedd

Bydd dysgwyr yn adolygu ac yn myfyrio ar y ffordd y mae'r crëwyr yn portreadu rhywedd mewn gwaith creadigol a'r ffordd y mae hyn wedi newid dros amser.

Trais ac aros yn ddiogel

Drwy archwilio gwaith creadigol sy'n seiliedig ar wrthdaro a newidiadau mewn cymdeithas, mae dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd. Drwy ffilm a'r cyfryngau digidol, disgwylir i ddysgwyr ddysgu am effeithiau cadarnhaol a niweidiol delweddau digidol, a'r modd y maent yn eu portreadu eu hunain ar-lein.

Sgiliau ar gyfer iechyd a lles

Bydd dysgwyr yn profi gwahaniaethau o ran rolau'r rhywiau a chydberthnasau drwy ffilm a drama. Disgwylir iddynt wynebu materion rhywioldeb a ffiniau mwy cymhleth drwy ddrama mewn arddulliau megis theatr fforwm. Byddant yn archwilio effaith y cyfryngau digidol a sut mae'r cyfryngau yn portreadu cydberthnasau.

Y corff dynol a'i ddatblygiad

Ym mhob rhan o'r Celfyddydau Mynegiannol, bydd dysgwyr yn archwilio teimladau am y corff a hunanddelwedd a sut mae diwydiant y Celfyddydau Mynegiannol yn dylanwadu arnynt. Drwy adnabod materion allweddol, gall dysgwyr ddefnyddio ffilm, cerddoriaeth, y celfyddydau gweledol, dawns a drama i archwilio materion mewn amgylchedd diogel a chefnogol.

Cyfoethogi a phrofiadau

Mae cyswllt annatod rhwng cwricwlwm y Celfyddydau Mynegiannol a chyfoethogi a phrofiadau. Caiff llais y dysgwr ei ystyried a chaiff dysgwyr eu grymuso i gymryd perchenogaeth dros eu dysgu drwy helpu i gynllunio natur eu profiadau.

Mae dysgu yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi yn cynnig cyfoeth o ddeunyddiau a phrofiadau sy'n ysgogi gwaith creadigol. Bydd dysgwyr yn ymgymryd â phrofiadau dysgu sy'n eu tywys allan o'u hystafelloedd dosbarth i leoliadau celfyddydol, megis amgueddfeydd, theatrau, stiwdios ffilm ac orielau.

Gall rhaglenni celfyddydau cymunedol a chwmnïau celfyddydau lleol ddarparu profiadau sy'n cynnig profiadau creadigol gwerthfawr a bywiog i ddysgwyr sy'n cysylltu pob un o'r meysydd dysgu a phrofiad.

Rhoi'r maes dysgu a phrofiad ar waith

Mae fframwaith y cwricwlwm a amlinellir ar gyfer y Celfyddydau Mynegiannol yn cefnogi ac yn annog cyfuniad o'r dulliau cyflwyno canlynol.

Dull rhyngddisgyblaethol

Mae'r dull rhyngddisgyblaethol o ymdrin â'r celfyddydau yn golygu bod y dysgu yn canolbwyntio ar un ddisgyblaeth ar y tro gyda phob maes yn cael ei gysylltu gan y broses greadigol, y thema neu'r cyd-destun. Drwy gysylltu'r broses greadigol ar draws y disgyblaethau, mae'r dysgwyr yn cysylltu eu sgiliau ac ar yr un pryd yn cael eu harwain at lefel ddyfnach o wybodaeth a dealltwriaeth am ddisgyblaeth benodol.

Dull integredig

Mae cwricwlwm integredig ar gyfer y Celfyddydau Mynegiannol yn gweld cyfuniad o gelf, cerddoriaeth, dawns, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol yn cael ei addysgu o fewn yr un wers ac nid fel gwersi ar wahân. Mae cyfuno'r disgyblaethau yn annog dysgwyr i wneud cysylltiadau ac uno cysyniadau, ac mae'n eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau perthnasol ac ystyrlon y gellir eu cysylltu â chyd-destunau cyfoethog, dilys. Gall yr holl ddisgyblaethau gael eu haddysgu mewn un wers gan un person gyda thema gysylltiol yn galluogi'r dysgwyr i drosglwyddo sgiliau a chydweithio mewn cyd-destunau ddilys. Mae hyn yn adlewyrchu byd gwaith y diwydiannau creadigol a diwylliannol.

Ym mhob model cyflwyno dylai fod cyfleoedd ar gyfer dysgu annibynnol er mwyn galluogi'r dysgwyr i ddatblygu'n ddysgwyr hunangyfeiriedig gyda mwy o ymreolaeth dros eu dysgu.



YR HYN SY'N BWYSIG YN Y CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL

Mae archwilio'r Celfyddydau Mynegiannol ac archwilio drwyddynt yn dyfnhau ein gwybodaeth artistig ac yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o hunaniaeth, diwylliant a chymdeithas.

Mae'r Celfyddydau Mynegiannol yn cynnig cyfrwng pwerus i ddysgwyr archwilio nid yn unig eu hetifeddiaeth ddiwylliannol eu hunain ond hefyd etifeddiaeth ddiwylliannol gwahanol bobl, gwahanol leoedd a gwahanol gyfnodau. Bydd y maes dysgu a phrofiad yn gwneud yn fawr o hyn. Bydd yn sicrhau bod dysgwyr, drwy'r Celfyddydau Mynegiannol, yn cael eu galluogi i archwilio hunaniaethau a chymdeithasau o bob cwr o'r byd, gan werthfawrogi arwyddocâd amrywiol ddiwylliannau Cymru, ei thraddodiadau a'i threftadaeth unigryw.

Mae profi'r Celfyddydau Mynegiannol yn cynnwys dwy broses sylfaenol: ar y naill law archwilio gwaith creadigol pobl eraill ac, ar y llall, creu gwaith eich hun. Er mwyn i'r dysgwyr gael ymwneud â'r ddwy broses, bydd y maes dysgu a phrofiad hwn yn rhoi cyfleoedd iddynt archwilio genres, technegau, adnoddau, deunyddiau ac arferion a fydd yn eu tro yn eu galluogi i ddatblygu'n unigolion chwilfrydig a chreadigol.

Byddant yn archwilio sut y defnyddir y Celfyddydau Mynegiannol i ffurfio a mynegi eu hunaniaeth bersonol, gymdeithasol a diwylliannol. Byddant hefyd yn archwilio sut y gellir defnyddio'r Celfyddydau Mynegiannol i gwestiynu a herio safbwyntiau cyffredin ac i ysgogi newid personol a chymdeithasol.

Drwy archwilio ffurfiau a disgyblaethau celfyddydol, boed drwy chwarae neu ymchwil fwy ffurfiol, bydd dysgwyr yn dod i ddeall y ffordd y mae'r Celfyddydau Mynegiannol yn cyfleu ystyr drwy ddefnyddio dulliau clywedol, corfforol, geiriol, gweledol a thechnolegol. Bydd yr archwilio hwn yn ei dro yn eu galluogi i ddatblygu eu gwaith eu hunain.

Yn ogystal â hyn, ym Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol bydd dysgwyr yn dod i ddeall sut y mae'r Celfyddydau Mynegiannol yn llywio, yn mynegi ac yn rhannu syniadau a theimladau. Byddant yn datblygu eu dychymyg ac yn tynnu ar eu profiadau, eu sgiliau a'u doniau fel eu bod yn dod yn artistiaid creadigol eu hunain.

Dysgu

Egwyddorion cynnydd

Egwyddorion cynnydd yw'r sail ar gyfer datblygu'r deilliannau cyflawniad a dylent lywio dilyniant y dysgu o fewn y maes dysgu a phrofiad.

Awgryma'r ymchwil fod cynnydd yn y Celfyddydau Mynegiannol, ac mewn creadigrwydd yn fwy cyffredinol, yn dueddol o ddatblygu trwy ddefnyddio ac aildddefnyddio sgiliau cyfarwydd, ond ar adegau gallai hefyd fod yn naid ansoddol. Nid yw'n broses sy'n dilyn trywydd unionsyth, ac nid oes un llwybr sy'n gyffredin i bawb. Gallai dysgwyr symud yn ôl ac ymlaen yn rhwydd wrth brofi gweithgareddau Celfyddydau Mynegiannol ac mae gwahanol ddysgwyr yn dueddol o ddatblygu mewn ffyrdd gwahanol iawn.

Mae'n amlwg bod yr amgylchedd y mae'r dysgwyr yn dysgu ynddo, gan gynnwys ansawdd yr addysgu, yn ffactor pwysig wrth hwyluso cynnydd. Yn bennaf, ceir neges glir yn yr ymchwil mai dulliau ansoddol, disgrifiadol o asesu cyflawniad a chynnydd yw'r dulliau mwyaf addas. Mae ffactorau perthnasol i gynnydd yn y Celfyddydau Mynegiannol yn cynnwys y canlynol.

Cymhlethdod: Gall materion yr ymdrinnir â nhw gan ddysgwyr iau gael eu hailystyried gan ddysgwyr hŷn mewn ffyrdd mwy cymhleth a soffistigedig.

Rheolaeth: Dylai dysgwyr ennill mwy a mwy o reolaeth dros ddulliau mynegi'r Celfyddydau Mynegiannol.

Dyfnder: Mae dysgwyr yn symud o amrywiaeth eang o brofiadau yn y Celfyddydau Mynegiannol i archwilio eu dysgu mewn mwy o ddyfnder.

Annibyniaeth: Mae dysgwyr yn dod yn fwyfwy annibynnol.

Cam cynnydd 1

Deilliannau cyflawniad

Gallaf archwilio amrywiaeth o ddeunyddiau ac adnoddau, offer a thechnolegau ym meysydd celf, cerddoriaeth, dawn, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol i astudio eu nodweddion synhwyraidd a chynhyrchiol fel sail i'm gwaith.

Gallaf archwilio amrywiaeth o dechnegau, deunyddiau ac adnoddau, offer a thechnolegau creadigol a, chan ddefnyddio fy nychymyg, gallaf ystyried eu potensial i gyflawni canlyniadau gwahanol.

Gallaf ofyn cwestiynau i ganfod sut a pham y caiff gwaith creadigol ei wneud a gallaf ddefnyddio'r hyn rwy'n ei wybod i ddatblygu syniadau gwreiddiol.

Gallaf archwilio sut y caiff syniadau, teimladau, hwyliau a barnau pobl eraill eu cyfleu a'u rhannu drwy'r Celfyddydau Mynegiannol.

Gallaf ymchwilio i amrywiaeth o draddodiadau, ffurfiau, arddulliau a genres nid yn unig o'm profiadau fy hun ond hefyd o'r byd ehangach o'm hamgylch er mwyn datblygu fy ymateb creadigol yn annibynol ac ar y cyd.

Cam cynnydd 2

Deilliannau cyflawniad

Gallaf arbrofi ac yna ddewis arferion, deunyddiau ac adnoddau, offer a thechnolegau priodol ym meysydd celf, cerddoriaeth, dawn, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol er mwyn archwilio syniadau sydd wedi eu hysbrydoli gan fy nychymyg a'm chwilfrydedd.

Gallaf archwilio gwaith creadigol pobl eraill a defnyddio fy mhrofiad i lywio a dylanwadu ar fy syniadau gwreiddiol fy hun.

Gallaf adnabod prif ddiben gwaith creadigol drwy archwilio dulliau clywedol, llafar, corfforol, ysgrifenedig, gweledol a thechnolegol.

Gallaf ddefnyddio geirfa briodol sy'n perthyn i ddisgyblaeth benodol wrth arbrofi ag arferion a thechnegau, deunyddiau ac adnoddau, offer a thechnolegau creadigol.

Gallaf archwilio sut mae artistiaid a gwaith creadigol yn cyfleu hwyliau, teimladau a syniadau.

Gallaf archwilio ac ystyried sut y defnyddir y Celfyddydau Mynegiannol i gynrychioli, dogfennu, rhannu a dathlu hunaniaethau personol, cymdeithasol a diwylliannol a geir yn fy nghymuned, yng Nghymru ac yn y byd ehangach.

Cam cynnydd 3

Deilliannau cyflawniad

Gallaf arbrofi â deunyddiau ac adnoddau, offer a thechnolegau ym meysydd celf, cerddoriaeth, dawn, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol a'u dewis yn briodol er mwyn archwilio syniadau sydd wedi eu hysbrydoli gan fy nychymyg a'm chwilfrydedd.

Gallaf arbrofi gyda gwahanol ddeunyddiau ac adnoddau, offer a thechnolegau, ac ystyried y ffordd y maent yn effeithio ar fy ngwaith creadigol.

Gallaf ddefnyddio a deall amrywiaeth o dermau sy'n perthyn i ddisgyblaeth benodol yn gywir ac yn hyderus wrth arbrofi â thechnegau, deunyddiau ac adnoddau, offer a thechnolegau.

Gallaf ymchwilio i'r ffordd y caiff ystyr ei chyfleu a'i hesbonio er mwyn llywio fy ymatebion creadigol.

Gallaf ymchwilio i'r ffordd y mae'r Celfyddydau Mynegiannol yn cynrychioli ac yn dathlu hunaniaethau personol, cymdeithasol a diwylliannol a'i hesbonio.

Gallaf archwilio syniadau pobl eraill ac arbrofi â'm syniadau fy hun er mwyn datblygu fy ngwaith creadigol gan ddangos hyder i gymryd risg.

Gallaf archwilio effaith gwaith creadigol ar gynulleidfa.

Gallaf archwilio sut y defnyddir y Celfyddydau Mynegiannol i gynrychioli, dogfennu, rhannu a dathlu hunaniaethau personol, cymdeithasol a diwylliannol a geir yn fy nghymuned, yng Nghymru ac yn y byd ehangach.

Cam cynnydd 4

Deilliannau cyflawniad

Gallaf ymchwilio i'r ffordd y mae gwneuthurwyr a pherfformwyr eraill ym meysydd celf, cerddoriaeth, dawns, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol yn datblygu ac yn defnyddio gwahanol arferion a thechnegau, deunyddiau ac adnoddau, offer a thechnolegau yn eu gwaith.

Gallaf ddyfnhau'r wybodaeth sydd gen i am ddisgyblaeth benodol, a gallaf ddefnyddio hyn i ddylanwadu ar fy ngwaith creadigol drwy archwilio traddodiadau, ffurfiau, arddulliau a genres.

Gallaf arbrofi â'm syniadau creadigol fy hun a syniadau creadigol pobl eraill, gan ddangos arloesedd, meddwl annibynnol a gwreiddioldeb, a dangos hefyd yr hyder i gymryd risg ac i ddatblygu gwydnwch er mwyn goresgyn heriau.

Gallaf archwilio sut mae cynrychiolaeth symbolaidd neu effeithiau technegol yn cyfleu hunaniaeth bersonol, gymdeithasol a diwylliannol ym mhob un o ddisgyblaethau'r Celfyddydau Mynegiannol.

Gallaf archwilio sut y caiff ystyr wahanol ei phortreadu a'i chyfleu drwy amrywiaeth o waith creadigol.

Gallaf archwilio a dadansoddi pwysigrwydd rolau a swyddogaethau penodol yn y diwydiannau creadigol a diwylliannol.

Gallaf archwilio ac ymchwilio i'r ffordd y mae amrywiol weithiau creadigol o Gymru ac o ddiwylliannau a chyfnodau gwahanol yn dylanwadu ar fy ngwaith fy hun yn annibynnol ac ar y cyd ag eraill.

Gallaf archwilio sut y defnyddir y Celfyddydau Mynegiannol i gynrychioli a dathlu'r hunaniaethau personol, cymdeithasol a diwylliannol a geir yn fy nghymuned, yng Nghymru ac yn y byd ehangach.

Cam cynnydd 5

Deilliannau cyflawniad

Gallaf ymchwilio i syniadau gwneuthurwyr a pherfformwyr eraill ym meysydd celf, cerddoriaeth, dawns, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol.

Gallaf arbrofi â'm syniadau creadigol fy hun a syniadau creadigol pobl eraill, gan ddangos arloesi, meddwl annibynnol a gwreiddioldeb er mwyn datblygu fy ngwaith, a gallaf ddangos yr hyder i fod yn wydn ac i gymryd risg er mwyn goresgyn heriau.

Gallaf ddod o hyd i ymchwil berthnasol yn ystod archwiliad ymarferol a defnyddio hyn i lywio gwybodaeth ddamcaniaethol.

Gallaf ymchwilio i amrywiaeth o draddodiadau, ffurfiau, arddulliau a genres cyferbyniol gan ddefnyddio amrywiaeth eang o dermau sy'n perthyn i ddisgyblaeth benodol.

Gallaf ymestyn ac integreiddio'r hyn rwy'n ei wybod am dechnegau esthetig wrth arbrofi â syniadau creadigol ar draws amrywiaeth o waith creadigol cyferbyniol a heriol.

Gallaf ymchwilio i ddiben amrywiaeth eang o waith creadigol ac ystyried pa effaith y gallant ei gael ar wahanol gynulleidfaoedd gan weithio'n annibynnol.

Gallaf ymchwilio i rolau a swyddogaethau penodol yn y diwydiannau creadigol a diwylliannol a deall eu pwysigrwydd a'u cyfraniad i'r sector hwn, gan weithio'n annibynnol.

Gallaf ystyried ffyrdd o ddilyn gyrfa yn y diwydiannau creadigol a diwylliannol.

Gallaf ymchwilio i'r ffordd y gellir defnyddio cynrychiolaeth symbolaidd neu effeithiau technegol i gyfleu ystyr.

Gallaf archwilio gwaith creadigol, gan ddeall y cyd-destun personol, cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol, gan gynnwys confensiynau'r cyfnod y cafodd ei greu ynddo.

Gallaf ymchwilio i'r ffordd y mae artistiaid a gwaith creadigol yn effeithio ar gymdeithas yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang.

Cynllunio ar gyfer dysgu

Cysylltiadau o fewn y maes dysgu a phrofiad hwn

Mae'r adran hon yn dangos nad yw'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Celfyddydau Mynegiannol yn dilyn trywydd unionsyth, maent yn gydgyssylltiedig. Gyda'i gilydd, maent yn galluogi dysgwyr i ymwneud yn llawn â'r broses greadigol a rennir gan bum disgyblaeth benodol y Celfyddydau Mynegiannol.

Fel rhan o'r broses greadigol, sy'n cael ei gynrychioli yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, dylai dysgwyr allu archwilio, ymateb i a chreu eu gwaith eu hunain wrth gael profiadau cyfoethog, dilys. Er enghraifft, drwy archwilio genre, arddull, artist, ac ati, mae dysgwyr yn dechrau ffurfio barn am waith creadigol pobl eraill a'i werthfawrogi, yn ogystal ag arbrofi gyda gwahanol ddeunyddiau a phrosesau, ac ati. Gallant wedyn ddefnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n cael eu hennill fel rhan o'r archwilio hwn i ysbrydoli eu gwaith creadigol eu hunain, gan barhau i fyfrio ar eu gwaith fel rhan o'r broses greadigol.

Cysylltiadau â meysydd dysgu a phrofiad eraill

Mae'r adran hon yn awgrymu lle gellid cyfoethogi dysgu drwy wneud cysylltiadau rhwng y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad. Mae hefyd yn awgrymu ymhle gellid ystyried gwahanol elfennau o ddysgu gyda'i gilydd er mwyn cefnogi dysgu sy'n fwy holistaidd.

Dyniaethau

- Archwilio'r celfyddydau o wahanol gyfnodau, diwylliannau a chymdeithasau.
- Archwilio ein diwylliant ein hunain a diwylliannau eraill.
- Drwy'r celfyddydau gallwn archwilio cymdeithas, cysyniadau moesegol, sgiliau ymholi, amgylchedd, hyder i fynegi, sgiliau gwerthuso'n feirniadol.
- Ymchwilio i feysydd cynaliadwyedd, busnes a dinasyddiaeth gyfrifol.
- Sut mae artistiaid ac ymarferwyr creadigol wedi ymateb i newid cymdeithasol, gwyliau crefyddol; y ffordd y defnyddir dawnys ar gyfer gwyliau a defodau; defnyddio'r amgylchedd fel gofod perfformio.
- Sut mae pobl wahanol yn dehongli pethau.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Meddylfryd dylunio a'r broses ddylunio.
- Defnyddio technoleg ddigidol wrth greu a dylunio.
- Datblygu sgiliau technolegol i ymchwilio.
- Datblygu sgiliau echddygol manwl i ddefnyddio offer a datblygu sgiliau echddygol bras i gydgyssylltu symudiadau.
- Archwilio defnyddiau ac offer.
- Prosesau creadigol dylunio ac ymchwilio.

Iechyd a Lles

- Cydberthnasau rhwng artistiaid a chynulleidfa.
- Meithrin hyder, adeiladu gwydnwch ac iechyd meddwl.
- Gweithgarwch corfforol – ymwybyddiaeth o'r corff.
- Cydberthnasau a chymryd risg.
- Cyfleu syniadau a theimladau.
- Datblygu lles emosiynol drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau yn ymwneud â'r Celfyddydau Mynegiannol.

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Archwilio technegau drama, e.e. chwarae rôl, perfformio, drama.
- Hunaniaeth – archwilio ieithoedd Cymru a thraddodiadau artistig cyfansoddi caneuon, ysgrifennu creadigol, barddoniaeth, eisteddfodau, caneuon.
- Llythrennedd gweledol; ysgrifennu creadigol; deall cynulleidfa a diben (gan addasu iaith i gynulleidfa); llenyddiaeth; cerddi cyhoeddus; llythrennedd a drama; ffilm; amlgyfrwng; chwarae rôl (cyfathrebu a llafaredd).
- Rôl y broses creadigol o ran ysgrifennu creadigol.

Mathemateg a Rhifedd

- Archwilio llinellau amser drwy gyfnodau mewn hanes.
- Archwilio cyfrif, dilyniannu, patrymau, cymesuredd, siâp, safleoedd.
- Archwilio ymdeimlad o amser, amseru, cyfyngiadau amser.
- Ymwybyddiaeth o ofod – archwilio sut mae ymarferwyr yn defnyddio gofod i gael effaith a chydabod yr effaith y mae'n ei chael ar y gynulleidfa.

Profiadau, gwybodaeth a sgiliau

Cam cynnydd 1

Yn yr adran hon, pan wneir cyfeiriadau at **elfennau** a **ffurfiau** mae'r rhain yn cynnwys ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r canlynol.

Elfennau

Celf: llinell, siâp, gwead, lliw, ffurf (2D, 3D, 4D), patrwm, naws.

Dawns: corff, gofod, amser, dynameg, cydberthynas, ffurf.

Ffilm a'r cyfryngau digidol: gofod 3D, sain, goleuadau, camera, naratif, arddull, genre, cynulleidfa, cyfansoddiad (gweledol, rhithwir a sonig), ffurf (animeiddio, ffilmio byw, clywedol, ysgrifenedig).

Drama: cymeriad, meddwl, lle, plot, symudiad, ynganu, naws, traw, tempo, ystum, rhyngweithio.

Cerddoriaeth: traw, dynameg, ansawdd, tempo, soniaredd, rhythm a churiad, strwythur.

Ffuriau

Celf: paentio, argraffu, cerflunio, lluniadu, ffotograffiaeth, tecstilau, crefft, animeiddio, darlunio, dylunio.

Dawns: cyfeiriad, dynameg, symud, cydberthynas, siâp.

Ffilm a'r cyfryngau digidol: (Camau cynnydd 1–5 ond â chymhlethdod cynyddol) animeiddio, rhaglen ddogfen, naratif, print, radio/podlediad, realaeth, naturiolaeth, symbolaeth, fideo, ffotograffiaeth, graffeg, ffurfiau rhithwir, ffurfiau llinol, ffurfiau aflinol, dylunio llwyfannau, cyfryngau cymdeithasol, gemau fideo, cynllunio digwyddiadau.

Drama: (Camau cynnydd 1–5 ond â chymhlethdod cynyddol) comedi, trasiedi, trasigomedi, ffars, sioe gerdd, melodrama, meim, opera, bale.

Cerddoriaeth: ffurf ddwyran, cylchoedd.

Mae angen i ddysgwyr brofi:

- gwahanol fathau o chwarae ac amrywiaeth o weithgareddau creadigol a gychwynnir gan blant ac a arweinir gan oedolion
- arbrofi ag amrywiaeth o sgiliau ymarferol a thechnolegol yn greadigol o fewn chwarae pwrpasol
- gweithgareddau chwarae pwrpasol a chreadigol sy'n cynnig cyfle i ddysgwyr ddefnyddio amrywiaeth o offer a thechnolegau, adnoddau a deunyddiau creadigol
- sbardunau sy'n eu hysbrydoli, ac yn ennyn eu diddordeb i archwilio, darganfod a chwestiynu ac sy'n ysgogi eu chwilfrydedd a'u dychymyg

- ymweliadau â lleoliadau rhithwir neu go iawn a mewnbwn gan arbenigwyr creadigol i ddatblygu a dyfnhau eu profiad yn y Celfyddydau Mynegiannol
- amrywiaeth o **elfennau**, **ffurfiau**, arddulliau, genres, testunau creadigol a dathliadau o wahanol gyfnodau a diwylliannau drwy gelf, cerddoriaeth, dawn, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol gan gynnwys y rhai o'u cymuned, o Gymru ac o'r byd ehangach.

Mae angen i ddysgwyr wybod:

- y gellir rhannu syniadau, teimladau, naws a barnau pobl eraill drwy ddulliau corfforol, sonig, geiriol, gweledol a thechnolegol
- amrywiaeth briodol o **elfennau** a geirfa sy'n perthyn i ddisgyblaethau penodol celf, cerddoriaeth, dawn, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol
- bod pobl ar hyd yr oesoedd ac o wahanol ddiwylliannau wedi cynhyrchu gwaith creadigol er mwyn dathlu eu diwylliant a'u hunaniaeth.

Mae angen i ddysgwyr allu:

- ymchwilio, drwy greu'n fyrfyr ac arbrofi'n ymarferol, i ffyrdd y gellir defnyddio celf, cerddoriaeth, dawn, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol i gyfleu ystyr
- dethol a defnyddio amrywiaeth o dechnegau, prosesau, deunyddiau, offer a thechnolegau creadigol i greu effaith ar gyfer cynulleidfa
- datblygu eu sgiliau sy'n perthyn yn benodol i ddisgyblaeth drwy chwarae creadigol a phwrpasol
- rhannu eu sgiliau sy'n perthyn yn benodol i ddisgyblaeth â chynulleidfa
- gweithio'n annibynnol ac ar y cyd i ymchwilio i botensial y Celfyddydau Mynegiannol fel dull cyfathrebu
- archwilio gofod a mesuriad mewn cyd-destunau creadigol.

Cam cynnydd 2

Yn yr adran hon, pan wneir cyfeiriadau at **elfennau** a **ffurfiau** mae'r rhain yn cynnwys ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r canlynol.

Elfennau

Celf: llinell, siâp, gwead, lliw, ffurf (2D, 3D, 4D), patrwm, naws, gofod, cyferbyniad.

Dawns: corff, gofod, amser, dymameg, cydberthynas, ffurf ac egwyddorion symud.

Ffilm a'r cyfryngau digidol: gofod 3D, sain, goleuadau, camera, naratif, arddull, genre, cynulleidfa, cyfansoddiad (gweledol, rhithwir a sonig), ffurf (animeiddio, ffilmio byw, clywedol, ysgrifenedig).

Drama: cymeriad, amser, lle, plot, tensiwn, lefelau, blocio, naws, symud, traw, tempo, acen, iaith y corff, mynegiant, ystum, rhyngweithio, ymateb.

Cerddoriaeth: traw, dymameg, ansawdd, tempo, soniaredd, rhythm, mesur, ffurf a strwythur, melodi.

Ffuriau

Celf: paentio, argraffu, cerflunio, lluniadu, ffotograffiaeth, tecstilau, crefft, animeiddio, darlunio, dylunio.

Dawns: cyfeiriad, dymameg, symud, cydberthynas, siâp, motiff.

Ffilm a'r cyfryngau digidol: (Camau cynnydd 1–5 ond â chymhlethdod cynyddol) animeiddio, rhaglen ddogfen, naratif, print, radio/podlediad, realaeth, naturiolaeth, symbolaeth, fideo, ffotograffiaeth, graffeg, ffurfiau rhithwir, ffurfiau llinol, ffurfiau aflinol, dylunio llwyfannau, cyfryngau cymdeithasol, gemau fideo, cynllunio digwyddiadau.

Drama: (Camau cynnydd 1–5 ond â chymhlethdod cynyddol) comedi, trasiedi, trasigomedi, ffars, sioe gerdd, melodrama, meim, opera, bale.

Cerddoriaeth: ffurf ddwyran, cylchoedd, teiran.

Mae angen i ddysgwyr brofi:

- sbardunau sy'n eu hysbrydoli ac yn ennyn eu diddordeb i archwilio, darganfod a chwestiynu, ac sy'n ysgogi eu chwilfrydedd a'u dychymyg
- amrywiaeth o **elfennau**, **ffurfiau**, arddulliau, genres, a thestunau creadigol o wahanol gyfnodau a diwylliannau drwy gelf, cerddoriaeth, dawn, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol gan gynnwys y rhai o'u cymuned, o Gymru ac o'r byd ehangach
- amrywiaeth o offer a thechnolegau, adnoddau a deunyddiau creadigol
- ymweliadau â lleoliadau rhithwir neu go iawn a mewnbwn gan arbenigwyr creadigol i ddatblygu ac ehangu eu profiad yn y Celfyddydau Mynegiannol.

Mae angen i ddysgwyr wybod:

- y gellir rhannu syniadau, teimladau, naws a barnau pobl eraill drwy ddulliau clywedol, llafar, corfforol, sonig, geiriol, gweledol a thechnolegol
- amrywiaeth o eirfa sy'n perthyn i ddisgyblaethau penodol celf, cerddoriaeth, dawn, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol
- sut mae ymarferwyr creadigol o bob un o'r disgyblaethau yn defnyddio **elfennau**, **ffurfiau**, arddulliau, technegau ac offer, a thechnolegau i greu ystyr
- bod pobl ar hyd yr oesoedd ac o wahanol ddiwylliannau wedi cynhyrchu gwaith creadigol er mwyn dathlu eu diwylliant a'u hunaniaeth
- sut mae'r Celfyddydau Mynegiannol yn defnyddio symbolaeth i gyfleu ystyr.

Mae angen i ddysgwyr allu:

- ymchwilio, drwy greu'n fyrfyr ac arbrofi'n ymarferol, i'r ffordd y gellir defnyddio **elfennau**, **ffurfiau**, arddulliau a genres penodol celf, cerddoriaeth, dawn, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol i gyfleu ystyr
- dethol a defnyddio amrywiaeth o dechnegau, prosesau, deunyddiau, offer a thechnolegau creadigol i greu effaith ar gynulleidfa
- datblygu eu sgiliau sy'n perthyn yn benodol i ddisgyblaeth drwy chwarae creadigol a phwrpasol
- rhannu eu sgiliau sy'n perthyn yn benodol i ddisgyblaeth â chynulleidfa er mwyn profi sut maent yn cyfleu ystyr a bwriad
- gweithio'n annibynnol ac ar y cyd i ymchwilio i botensial y Celfyddydau Mynegiannol fel dull cyfathrebu
- archwilio gofod a mesuriad mewn cyd-destunau creadigol
- datblygu rheolaeth gynyddol wrth ddefnyddio offer a thechnolegau, adnoddau a deunyddiau creadigol.

Cam cynnydd 3

Yn yr adran hon, pan wneir cyfeiriadau at **elfennau** a **ffurfiau** mae'r rhain yn cynnwys ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r canlynol.

Elfennau

Celf: llinell, siâp, gwead, lliw, ffurf (2D, 3D, 4D), patrwm, naws, gofod, cyferbyniad, ailadrodd, cymesuredd, rhythm, cydbwysedd, amrywiaeth, gwerth, pwyslais, harmoni, cynllun, strwythur, persbectif, cyfansoddiad.

Dawns: corff, gofod, amser, dynameg, cydberthynas, egwyddorion symud a dyfeisiau coreograffig.

Ffilm a'r cyfryngau digidol: gofod 3D, sain, goleuadau, camera, naratif, arddull, genre, cynulleidfa, cyfansoddiad (gweledol, rhithwir a sonig), ffurf (animeiddio, ffilmio byw, clywedol, ysgrifenedig), rhith-wirionedd.

Drama: cymeriad, amser, lle, plot, tensiwn, awyrgylch, ffocws, cyferbyniad, tawelwch, cynefin, lefelau, blocio, symud, naws, traw, tempo, acen, seibiannau, iaith y corff, mynegiant, ystum, rhyngweithio, ymateb.

Cerddoriaeth: traw, dynameg, ansawdd, tempo, soniaredd, rhythm, mesur, ffurf a strwythur, melodi, cyweiredd, dyfeisiau cerddorol (e.e. riff, ostinato, dilyniant).

Ffuriau

Celf: paentio, argraffu, cerflunio, lluniadu, ffotograffiaeth, tecstilau, crefft, animeiddio, darlunio, dylunio.

Dawns: cyfeiriad, dynameg, symud, cydberthynas, siâp, dyfeisiau coreograffig.

Ffilm a'r cyfryngau digidol: (Camau cynnydd 1–5 ond â chymhlethdod cynyddol) animeiddio, rhaglen ddogfen, naratif, print, radio/podlediad, realaeth, naturiolaeth, symbolaeth, fideo, ffotograffiaeth, graffeg, ffurfiau rhithwir, ffurfiau llinol, ffurfiau aflinol, dylunio llwyfannau, cyfryngau cymdeithasol, gemau fideo, cynllunio digwyddiadau.

Drama: (Camau cynnydd 1–5 ond â chymhlethdod cynyddol) comedi, trasiedi, trasigomedi, ffars, sioe gerdd, melodrama, meim, opera, bale.

Cerddoriaeth: ffurf ddwyran, cylchoedd, teiran, stroffig.

Mae angen i ddysgwyr brofi:

- sbardunau sy'n eu hysbrydoli ac yn ennyn eu diddordeb i archwilio, darganfod, herio a chwestiynu, ac sy'n ysgogi eu chwilfrydedd a'u dychymyg
- amrywiaeth o **elfennau**, **ffurfiau**, arddulliau, genres a thestunau creadigol o feysydd celf, cerddoriaeth, dawns, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol gan gynnwys y rhai o'u cymuned, o Gymru ac o'r byd ehangach

- amrywiaeth o offer a thechnolegau, adnoddau a deunyddiau creadigol
- gweithgareddau sy'n eu helpu i archwilio sut y gallant greu ystyr gan ddefnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau o ran y Celfyddydau Mynegiannol
- ymweliadau â lleoliadau rhithwir neu go iawn a mewnbwn gan arbenigwyr creadigol i ddatblygu a dyfnhau eu profiad yn y Celfyddydau Mynegiannol.

Mae angen i ddysgwyr wybod:

- amrywiaeth o eirfa briodol sy'n perthyn i ddisgyblaethau penodol celf, cerddoriaeth, dawns, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol
- sut mae ymarferwyr creadigol o bob un o'r disgyblaethau yn defnyddio **elfennau**, **ffurfiau**, arddulliau, technegau ac offer, a thechnolegau i greu ystyr
- sut mae'r Celfyddydau Mynegiannol yn defnyddio symbolaeth i gyfleu ystyr
- bod y Celfyddydau Mynegiannol yn cwmpasu gwahanol genres ac arddulliau o bob un o'r disgyblaethau.

Mae angen i ddysgwyr allu:

- ymchwilio, drwy greu'n fyrfyr ac arbrofi'n ymarferol, i'r ffordd y gellir defnyddio **elfennau**, **ffurfiau**, arddulliau a genres penodol celf, cerddoriaeth, dawns, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol i gyfleu ystyr ar draws y disgyblaethau
- canfod sut y gellir defnyddio dilyniannau, delweddau, symudiadau a synau, naill ai'n unigol neu ar y cyd, i greu effaith ar gynulleidfa drwy archwilio amrywiaeth o dechnegau, prosesau, deunyddiau, offer a thechnolegau creadigol
- datblygu eu sgiliau sy'n perthyn yn benodol i ddisgyblaeth drwy arbrofi ac ymarfer â dyfalbarhad
- rhannu eu sgiliau sy'n perthyn yn benodol i ddisgyblaeth â chynulleidfa er mwyn profi sut maent yn cyfleu ystyr a bwriad
- gweithio'n annibynnol ac ar y cyd, gan gymryd cyfrifoldeb am archwilio agweddau ar y Celfyddydau Mynegiannol
- archwilio gofod a mesuriad mewn cyd-destunau creadigol
- ymchwilio i botensial y Celfyddydau Mynegiannol fel dull cyfathrebu
- bod yn wrthrychol pan fyddant yn wynebu barnau croes mewn perthynas â'u barn nhw eu hunain a barn pobl eraill.

Cam cynnydd 4

Yn yr adran hon, pan wneir cyfeiriadau at **elfennau** a **ffurfiau** mae'r rhain yn cynnwys ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r canlynol.

Elfennau

Celf: llinell, siâp, gwead, lliw, ffurf (2D, 3D, 4D), patrwm, naws, gofod, cyferbyniad, ailadrodd, cymesuredd, rhythm, cydbwysedd, amrywiaeth, gwerth, pwyslais, harmoni, cynllun, strwythur, persbectif, cyfansoddiad.

Dawns: corff, gofod, amser, dynameg, cydberthynas, ffurf, egwyddorion symud, dyfeisiau coreograffig.

Ffilm a'r cyfryngau digidol: gofod 3D, sain, goleuadau, camera, naratif, arddull, genre, cynulleidfa, cyfansoddiad (gweledol, rhithwir a sonig), ffurf (animeiddio, ffilmio byw, clywedol, ysgrifenedig), rhith-wirionedd.

Drama: cymeriad, amser, lle, plot, tensiwn, awyrgylch, ffocws, cyferbyniad, tawelwch, cynefin, lefelau, blocio, symud, naws, traw, tempo, acen, seibiannau, iaith y corff, mynegiant, ystum, rhyngweithio, ymateb, cymhelliant.

Cerddoriaeth: traw, dynameg, ansawdd, tempo, soniaredd, rhythm, mesur, ffurf a strwythur, melodi, cyweiredd, dyfeisiau cerddorol (e.e. riff, ostinato, dilyniant), harmoni.

Ffuriau

Celf: paentio, argraffu, cerflunio, lluniadu, ffotograffiaeth, tecstilau, crefft, animeiddio, darlunio, dylunio.

Dawns: cyfeiriad, dynameg, symud, cydberthynas, siâp, dyfeisiau coreograffig.

Ffilm a'r cyfryngau digidol: (Camau cynnydd 1–5 ond â chymhlethdod cynyddol) animeiddio, rhaglen ddogfen, naratif, print, radio/podlediad, realaeth, naturiolaeth, symbolaeth, fideo, ffotograffiaeth, graffeg, ffurfiau rhithwir, ffurfiau llinol, ffurfiau aflinol, dylunio llwyfannau, cyfryngau cymdeithasol, gemau fideo, cynllunio digwyddiadau.

Drama: (Camau cynnydd 1–5 ond â chymhlethdod cynyddol) comedi, trasiedi, trasigomedi, ffars, sioe gerdd, melodrama, meim, opera, bale.

Cerddoriaeth: ffurf ddwyran, canon, teiran, stroffig, rondo.

Mae angen i ddysgwyr brofi:

- sbardunau sy'n eu hysbrydoli ac yn ennyn eu diddordeb i archwilio, darganfod, cwestiynu a herio er mwyn ysgogi eu chwilfrydedd a'u dychymyg
- amrywiaeth o **elfennau**, **ffurfiau**, arddulliau, genres a thestunau creadigol o feysydd celf, cerddoriaeth, dawns, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol gan gynnwys y rhai o'u cymuned, o Gymru ac o'r byd ehangach

- amrywiaeth o offer a thechnolegau, adnoddau a deunyddiau creadigol, ym meysydd celf, cerddoriaeth, dawns, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol
- sut y gall cyfuno gwahanol **elfennau**, **ffurfiau**, arddulliau, technegau, offer a thechnolegau gael ei ddefnyddio i greu naws ac awyrgylch
- ymweliadau â lleoliadau rhithwir neu go iawn a mewnbwn gan arbenigwyr creadigol i ddatblygu a dyfnhau eu profiad yn y Celfyddydau Mynegiannol.

Mae angen i ddysgwyr wybod:

- amrywiaeth o eirfa briodol sy'n perthyn i ddisgyblaethau penodol celf, cerddoriaeth, dawns, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol
- sut mae ymarferwyr creadigol o bob un o'r disgyblaethau yn defnyddio **elfennau**, **ffurfiau**, arddulliau, technegau ac offer, a thechnolegau i greu ystyr
- sut mae'r Celfyddydau Mynegiannol yn defnyddio symbolaeth, cynodiad a dynodiad i gyfleu ystyr
- bod y Celfyddydau Mynegiannol yn cwmpasu gwahanol genres ac arddulliau o bob un o'r disgyblaethau
- bod cyfuno gwahanol **elfennau**, **ffurfiau**, arddulliau, technegau, offer a thechnolegau yn eu galluogi i ganfod sut y gellir creu ystyr, naws ac awyrgylch
- a deall y cydberthnasau rhwng y perfformiwr, y cynhyrchydd a'r gynulleidfa.

Mae angen i ddysgwyr allu:

- ymchwilio, drwy archwilio'n ymarferol, i'r ffordd y gellir defnyddio **elfennau**, **ffurfiau**, arddulliau a genres penodol celf, cerddoriaeth, dawns, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol i gyfleu ystyr
- canfod sut y gellir defnyddio dilyniannau, delweddau, symudiadau a synau, naill ai'n unigol neu ar y cyd, i greu effaith ar gyfer cynulleidfa drwy archwilio amrywiaeth o dechnegau, prosesau, deunyddiau, offer a thechnolegau creadigol
- datblygu eu sgiliau sy'n perthyn yn benodol i ddisgyblaeth drwy arbrofi ac ymarfer â dyfalbarhad
- rhannu eu sgiliau sy'n perthyn yn benodol i ddisgyblaeth â chynulleidfa er mwyn profi sut maent yn cyfleu ystyr a bwriad
- gweithio'n annibynnol ac ar y cyd, gan gymryd cyfrifoldeb am archwilio agweddau ar y Celfyddydau Mynegiannol
- archwilio gofod a mesuriad mewn cyd-destunau creadigol
- ymchwilio i botensial y Celfyddydau Mynegiannol fel dull cyfathrebu
- defnyddio sgiliau ymchwilio yn bwrpasol er mwyn ymestyn a dyfnhau eu gwybodaeth yn y Celfyddydau Mynegiannol.

Cam cynnydd 5

Yn yr adran hon, pan wneir cyfeiriadau at **elfennau a ffurfiau** mae'r rhain yn cynnwys ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r canlynol.

Elfennau

Celf: llinell, siâp, gwead, lliw, ffurf (2D, 3D, 4D), patrwm, naws, gofod, cyferbyniad, ailadrodd, cymesuredd, rhythm, cydbwysedd, amrywiaeth, gwerth, pwyslais, harmoni, cynllun, strwythur, persbectif, cyfansoddiad, undod.

Dawns: corff, gofod, amser, dynameg, cydberthynas, ffurf, egwyddorion symud, dyfeisiau coreograffig.

Ffilm a'r cyfryngau digidol: gofod 3D, sain, goleuadau, camera, naratif, arddull, genre, cynulleidfia, cyfansoddiad (gweledol, rhithwir a sonig), ffurf (animeiddio, ffilmio byw, clywedol, ysgrifenedig), rhith-wirionedd.

Drama: cymeriad, amser, lle, plot, tensiwn, awyrgylch, ffocws, cyferbyniad, tawelwch, cynefin, lefelau, blocio, symud, naws, traw, tempo, acen, seibiannau, iaith y corff, mynegiant, ystum, rhyngweithio, ymateb, cymhelliant, bwriad, ailddehongli.

Cerddoriaeth: traw, melodi, dynameg, ansawdd, tempo, soniared, rhythm, mesur, ffurf a strwythur, melodi, cyweiredd, dyfeisiau cerddorol (e.e. riff, ostinato, dilyniant), harmoni, tonyddiaeth.

Ffuriau

Celf: paentio, argraffu, cerflunio, lluniadu, ffotograffiaeth, tecstilau, crefft, animeiddio, darlunio, graffeg.

Dawns: cyfeiriad, dynameg, symud, cydberthynas, siâp a dyfeisiau coreograffig.

Ffilm a'r cyfryngau digidol: (Camau cynnydd 1–5 ond â chymhlethdod cynyddol) animeiddio, rhaglen ddogfen, naratif, print, radio/podlediad, realaeth, naturiolaeth, symbolaeth, fideo, ffotograffiaeth, graffeg, ffurfiau rhithwir, ffurfiau llinol, ffurfiau aflinol, dylunio llwyfannau, cyfryngau cymdeithasol, gemau fideo, cynllunio digwyddiadau.

Drama: (Camau cynnydd 1–5 ond â chymhlethdod cynyddol) comedi, trasiedi, trasigomedi, ffars, sioe gerdd, melodrama, meim, opera, bale.

Cerddoriaeth: ffurf ddwyran, canon a ffiwg, teiran, stroffig, rondo, thema ac amrywiad, trwy-gyfansawdd, sonata.

Mae angen i ddysgwyr brofi:

- sbardunau sy'n eu hysbrydoli ac yn ennyn eu diddordeb i archwilio, darganfod, cwestiynu a herio gan ysgogi eu chwilfrydedd a'u dychymyg
- amrywiaeth o **elfennau**, **ffurfiau**, arddulliau a genres celf, cerddoriaeth, dawn, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol, gan gynnwys y rhai o'u cymuned, o Gymru ac o'r byd ehangach
- amrywiaeth o weithiau celf, cerddoriaeth, dawn, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol yn genedlaethol a rhyngwladol o wahanol ddiwylliannau, cymunedau, cyfnodau a lleoedd
- amrywiaeth o offer a thechnolegau, adnoddau a deunyddiau creadigol, ym meysydd celf, cerddoriaeth, dawn, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol
- ffyrdd o greu ystyr gan ddefnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau o ran y Celfyddydau Mynegiannol
- sut y gall cyfuno gwahanol **elfennau**, **ffurfiau**, arddulliau, technegau ac offer a thechnolegau gael ei ddefnyddio i greu naws ac awyrgylch
- ymweliadau â lleoliadau rhithwir neu go iawn a mewnbwn gan arbenigwyr creadigol i ddatblygu a dyfnhau eu profiad yn y Celfyddydau Mynegiannol.

Mae angen i ddysgwyr wybod:

- amrywiaeth o eirfa briodol sy'n perthyn i ddisgyblaethau penodol celf, cerddoriaeth, dawn, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol
- sut mae ymarferwyr creadigol o bob un o'r disgyblaethau yn defnyddio **elfennau**, **ffurfiau**, arddulliau, technegau ac offer, a thechnolegau i greu ystyr
- sut mae'r Celfyddydau Mynegiannol yn defnyddio symbolaeth, dynodiad a chynodiad i gyfleu ystyr
- bod y Celfyddydau Mynegiannol yn cwmpasu gwahanol genres ac arddulliau o bob un o'r disgyblaethau
- y gallant ganfod sut y gellir creu ystyr, naws ac awyrgylch drwy gyfuno gwahanol **elfennau**, **ffurfiau**, arddulliau, technegau ac offer, a thechnolegau
- a deall y cydberthnasau rhwng y perfformiwr neu'r cynhyrchydd a'r gynulleidfa.

Mae angen i ddysgwyr allu:

- ymchwilio, drwy archwilio'n ymarferol, i'r ffordd y gellir defnyddio **elfennau**, **ffurfiau**, arddulliau a genres penodol celf weledol, cerddoriaeth, dawn, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol i gyfleu ystyr
- canfod sut y gellir defnyddio dilyniannau, delweddau, symudiadau a synau, naill ai'n unigol neu ar y cyd, i greu effaith ar gynulleidfa drwy archwilio amrywiaeth o dechnegau, prosesau, deunyddiau, offer a thechnolegau creadigol
- datblygu eu sgiliau sy'n perthyn yn benodol i ddisgyblaeth drwy arbrofi ac ymarfer
- rhannu eu sgiliau sy'n perthyn yn benodol i ddisgyblaeth â chynulleidfa er mwyn profi pa mor dda y maent yn cyfleu ystyr a bwriad
- gweithio ar y cyd, gan gymryd cyfrifoldeb am archwilio agweddau ar y Celfyddydau Mynegiannol
- gweithio'n annibynnol (naill ai ar eu pen eu hunain neu mewn grŵp) i ymchwilio i botensial y Celfyddydau Mynegiannol fel dull cyfathrebu
- archwilio gofod a mesuriad mewn cyd-destunau creadigol

- trin **elfennau**, **ffurfiau**, arddulliau a genres, technegau, prosesau, deunyddiau, offer a thechnolegau
- ymchwilio i'r ffordd y mae symbolaeth a throsiadau yn dyfnhau ystyr artistig
- defnyddio sgiliau ymchwilio yn bwrpasol er mwyn ymestyn a dyfnhau eu gwybodaeth yn y Celfyddydau Mynegiannol.



YR HYN SY’N BWYSIG YN Y CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL

Mae ymateb a myfyrio, fel artist a chynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu am y Celfyddydau Mynegiannol a dysgu drwyddynt.

Mae ymateb i'r Celfyddydau Mynegiannol ac ymateb drwy'r Celfyddydau Mynegiannol yn ysgogi ein hemosiynau a'n deallusrwydd. Gall yr ymateb fod yn adwaith synhwyraidd syml i ysgogiad artistig neu'n ddadansoddiad beirniadol o waith creadigol. Bydd gallu dysgwyr i fyfrio yn dyfnhau wrth iddynt feithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r ffordd y caiff y Celfyddydau Mynegiannol eu creu a pham. Mae ymateb i'r Celfyddydau Mynegiannol, a thrwyddynt, yn herio dysgwyr i fyfrio ac ystyried effeithiolrwydd eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill. Er mwyn ymateb yn effeithiol, bydd angen iddynt ffurfio perthnasau cadarnhaol ag eraill.

Mae rhannu'r prosesau y maent wedi'u defnyddio i gyflawni eu bwriad artistig yn cyfrannu at ddatblygu creadigrwydd y dysgwyr. Drwy fyfrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill, maent yn dysgu sgiliau pwysig mireinio a dadansoddi. Mae hyn, yn ei dro, yn eu helpu i ymchwilio i atebion creadigol i broblemau ac i ystyried cyn cymryd risg. Mae'r gallu i werthuso eu dysgu eu hunain yn rhan bwysig o'r ymateb creadigol ac, felly, bydd dysgwyr yn cael eu hannog i ystyried sut y gallant wella eu gwaith ac ymateb i adborth pobl eraill. Wrth wneud hyn, maent yn dod yn fwy gwydn ac yn meithrin hyder yn eu gallu creadigol.

Bydd dysgwyr yn ymateb i waith pobl eraill ac yn myfyrio arno, gan gynnwys gwaith eu cyfoedion ac ymarferwyr creadigol cydnabyddedig o Gymru a thu hwnt. Wrth wneud hyn, maent yn defnyddio ac yn ymestyn eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o'r Celfyddydau Mynegiannol.

Yn ogystal â gwybodaeth a sgiliau sy'n perthyn yn benodol i'r pum disgyblaeth, mae dysgu am y Celfyddydau Mynegiannol yn gofyn am wybodaeth a sgiliau rhyngddisgyblaethol. Felly, sicrhewr bod gan ddysgwyr yr eirfa a'r ddealltwriaeth feirniadol sydd eu hangen arnynt i ystyried gwaith cyfoes a hanesyddol mewn amrywiaeth o gyfryngau, ffurfiau, genres ac arddulliau.

Dysgu

Egwyddorion cynnydd

Egwyddorion cynnydd yw'r sail ar gyfer datblygu'r deilliannau cyflawniad a dylent lywio dilyniant y dysgu o fewn y maes dysgu a phrofiad.

Awgryma'r ymchwil fod cynnydd yn y Celfyddydau Mynegiannol, ac mewn creadigrwydd yn gyffredinol, yn dueddol o ddatblygu trwy ddefnydd graddol ac ailddefnydd graddol o sgiliau hysbys, ond ar adegau gallai hefyd fod yn naid ansoddol. Nid yw'n broses sy'n dilyn trywydd unionsyth ac nid oes un llwybr sy'n gyffredin i bawb. Gallai dysgwyr symud yn ôl ac ymlaen yn rhwydd wrth brofi gweithgareddau Celfyddydau Mynegiannol ac mae gwahanol ddysgwyr yn dueddol o ddatblygu mewn ffyrdd gwahanol iawn.

Mae'n amlwg bod yr amgylchedd y mae'r dysgwyr yn dysgu ynddo, gan gynnwys ansawdd yr addysgu, yn ffactor pwysig wrth hwyluso cynnydd. Yn bennaf, ceir neges glir yn yr ymchwil mai dulliau ansoddol, disgrifiadol o asesu cyflawniad a chynnydd yw'r dulliau mwyaf addas. Mae ffactorau perthnasol i gynnydd yn y Celfyddydau Mynegiannol yn cynnwys y canlynol.

Cymhlethdod: Gall materion yr ymdrinnir â nhw gan ddysgwyr iau gael eu hailystyried gan ddysgwyr hŷn mewn ffyrdd mwy cymhleth a soffistigedig.

Rheolaeth: Dylai dysgwyr ennill mwy a mwy o reolaeth dros ddulliau mynegi'r Celfyddydau Mynegiannol.

Dyfnder: Mae dysgwyr yn symud o amrywiaeth eang o brofiadau yn y Celfyddydau Mynegiannol i archwilio eu dysgu mewn mwy o ddyfnder.

Annibyniaeth: Mae dysgwyr yn dod yn fwyfwy annibynnol.

Cam cynnydd 1

Deilliannau cyflawniad

Gallaf ymateb â chwilfrydedd i amrywiaeth o sbardunau artistig drwy fynegi fy hoff bethau a'm cas bethau.

Gallaf ymateb i'm gwaith creadigol fy hun a gwaith pobl eraill, drwy fynegi fy hoff bethau a'm cas bethau.

Gallaf roi rhesymau dros fy newis.

Gallaf wrando ar bobl eraill sy'n mynegi barn am fy ngwaith creadigol.

Cam cynnydd 2

Deilliannau cyflawniad

Gallaf roi a derbyn adborth fel cynulleidfa a chyfranogwr mewn gweithgareddau creadigol.

Gallaf esbonio'r dewisiadau a wnafr wrth i mi ddatblygu fy ngwaith creadigol gan ddefnyddio terminoleg briodol sy'n perthyn i ddisgyblaeth benodol.

Gallaf dderbyn barnau pobl eraill a'u defnyddio i wneud newidiadau i'm gwaith creadigol.

Gallaf fyfyr ar y ffordd y caiff naws, emosiynau a syniadau eu cyfleu drwy'r Celfyddydau Mynegiannol, yn fy ngwaith fy hun ac yng ngwaith creadigol pobl eraill.

Gallaf gymharu fy ngwaith â gwaith pobl eraill, gan gynnwys gwaith fy nghyfoedion a gwaith o ddiwylliannau eraill.

Gallaf fyfyr ar briodoldeb y technegau, y deunyddiau a'r adnoddau, yr offer a'r technolegau rwyf wedi'u defnyddio i gyfleu fy syniadau.

Cam cynnydd 3

Deilliannau cyflawniad

Gallaf weithredu ar adborth adeiladol am fy ngwaith creadigol gan fy nghyfoedion ac eraill a'i ddefnyddio i wneud gwelliannau lle y bo angen.

Gallaf wella a mireinio fy ngwaith creadigol drwy ymarfer, golygu ac ailddrafftio.

Gallaf gymharu a chyferbynnu fy ngwaith creadigol fy hun â gwaith creadigol o leoedd, cyfnodau a diwylliannau eraill.

Gallaf fyfyr ar y ffordd y caiff syniadau eu cyflwyno mewn gwaith creadigol gan ddangos ymwybyddiaeth o draddodiadau, ffurfiau, arddulliau a genres.

Gallaf ddefnyddio terminoleg sy'n perthyn yn benodol i ddisgyblaeth wrth sôn a/neu ysgrifennu am y gwaith creadigol rwy'n ymwneud ag ef.

Gallaf drafod fy hoff bethau wrth adolygu gwahanol ddisgyblaethau yn y Celfyddydau Mynegiannol a rhoi rhesymau drostynt gan ddefnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am amrywiaeth o waith creadigol.

Gallaf ddefnyddio terminoleg sy'n perthyn yn benodol i ddisgyblaeth i ddisgrifio fy ngwaith creadigol fy hun a dechrau myfyr ar y ffordd y mae ymarferwyr creadigol sefydledig, gan gynnwys artistiaid, cyfarwyddwyr, cyfansoddwyr a choreograffwyr, wedi llwyddo i greu effeithiau penodol neu gyfleu hwyliau, emosiynau a syniadau yn eu gwaith.

Cam cynnydd 4

Deilliannau cyflawniad

Gallaf wneud cysylltiadau rhwng fy ngwaith creadigol fy hun a gwaith o draddodiadau, ffurfiau, arddulliau a genres ehangach yn y Celfyddydau Mynegiannol.

Gallaf werthuso effeithiolrwydd gwaith creadigol rwy'n ymwneud ag ef fel cynulleidfa, gan ddefnyddio terminoleg sy'n perthyn yn benodol i ddisgyblaeth.

Gallaf fyfyrio ar ddatblygiad ac effeithiolrwydd gwahanol dechnegau, deunyddiau ac adnoddau, offer a thechnolegau, ac ystyried sut y gellir adnabod ymarferwyr creadigol drwy arddull eu gwaith creadigol.

Gallaf werthuso fy ngwaith creadigol fy hun a gwaith creadigol pobl eraill gan ddangos hyder cynyddol i adnabod a chyfleu cryfderau a meysydd i'w gwella.

Gallaf ymateb i werthusiad o'm gwaith creadigol fy hun mewn ffordd feddylgar, gan ddangos gwydnwch a phenderfyniad i wella.

Gallaf fyfyrio ar benderfyniadau a wnaed yn ystod y broses creadigol, gan gynnig atebion ar gyfer gwneud gwelliannau neu ffyrdd amgen o weithio.

Gallaf gyfiawnhau pam y mae penderfyniadau creadigol penodol wedi'u gwneud ac esbonio'r rheswm dros fy mhenderfyniadau.

Gallaf ymateb i faterion cyfoes a chwestiynau pwysig gan ddangos fy nealltwriaeth drwy'r Celfyddydau Mynegiannol.

Cam cynnydd 5

Deilliannau cyflawniad

Rwyf wedi ennill gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o hunaniaethau personol, cymdeithasol a diwylliannol fy nghymuned, Cymru a'r byd ehangach yng nghyd-destun gweithiau creadigol, boed yn rhai hanesyddol neu'n rhai cyfoes.

Gallaf gymhwyso'r hyn rwy'n ei wybod a'i ddeall am gyd-destun wrth i mi werthuso ac arfarnu fy ngwaith creadigol fy hun a gwaith pobl eraill, a hefyd wrth fyfyrio arno.

Gallaf ddefnyddio terminoleg berthnasol sy'n perthyn i ddisgyblaeth benodol i ymestyn a gwerthuso effeithiolrwydd ac ansawdd gwaith creadigol.

Gallaf werthuso'n feirniadol y ffordd y mae ymarferwyr creadigol yn defnyddio sgiliau, technegau, deunyddiau ac adnoddau, offer a thechnolegau sy'n perthyn i ddisgyblaeth benodol i greu a chyfleu syniadau.

Gallaf werthuso'n feirniadol effeithiolrwydd fy null gweithredu a dull gweithredu eraill pan fyddaf yn ymateb i friff creadigol.

Gallaf ddangos gwydnwch wrth gymhwyso adborth beirniadol ac adeiladol at fy ngwaith.

Gallaf ymateb yn feirniadol ac yn feddylgar i farn a dylanwad creadigol pobl eraill wrth lywio a datblygu fy ngwaith celf.

Gallaf ddatblygu, mireinio, dogfennu ac arfarnu'n feirniadol syniadau, prosesau a sgiliau sy'n perthyn yn benodol i ddisgyblaeth.

Gallaf fyfyrio ar y rolau y mae celf, cerddoriaeth, dawns, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol yn eu chwarae wrth gyfrannu at drafodaeth ddiwylliannol a dinasyddiaeth.

Gallaf ddehongli, boed ar fy mhen fy hun neu mewn grŵp, faterion cyfoes, trafodaeth ddiwylliannol a chwestiynau pwysig drwy ddefnyddio'r Celfyddydau Mynegiannol.

Gallaf werthuso a barnu priodoldeb fy ngwaith mewn perthynas ag ystyriaethau moesegol.

Cynllunio ar gyfer dysgu

Cysylltiadau o fewn y maes dysgu a phrofiad hwn

Mae'r adran hon yn dangos nad yw'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Celfyddydau Mynegiannol yn dilyn trywydd unionsyth, maent yn gydgyssylltiedig. Gyda'i gilydd, maent yn galluogi dysgwyr i ymwneud yn llawn â'r broses greadigol a rennir gan bum disgyblaeth benodol y Celfyddydau Mynegiannol.

Fel rhan o'r broses greadigol, sy'n cael ei gynrychioli yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, dylai dysgwyr allu archwilio, ymateb i a chreu eu gwaith eu hunain wrth gael profiadau cyfoethog, dilys. Er enghraifft, drwy archwilio genre, arddull, artist, ac ati, mae dysgwyr yn dechrau ffurfio barn am waith creadigol pobl eraill a'i werthfawrogi, yn ogystal ag arbrofi gyda gwahanol ddeunyddiau a phrosesau, ac ati. Gallant wedyn ddefnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n cael eu hennill fel rhan o'r archwilio hwn i ysbrydoli eu gwaith creadigol eu hunain, gan barhau i fyfrio ar eu gwaith fel rhan o'r broses greadigol.

Cysylltiadau â meysydd dysgu a phrofiad eraill

Mae'r adran hon yn awgrymu lle gellid cyfoethogi dysgu drwy wneud cysylltiadau rhwng y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad. Mae hefyd yn awgrymu ymhle gellid ystyried gwahanol elfennau o ddysgu gyda'i gilydd er mwyn cefnogi dysgu sy'n fwy holistaidd.

Dyniaethau

- Defnyddir y dyniaethau fel cyd-destun i archwilio'r celfyddydau o wahanol gyfnodau, diwylliannau a chymdeithasau, a llunio ymatebion unigol.
- Archwilio ein gwaith creadigol ein hunain a gwaith creadigol diwylliannau eraill ac ymateb iddo.
- Drwy'r Celfyddydau Mynegiannol gallwn ystyried cymdeithas, cysyniadau moesegol, sgiliau ymholi, amgylchedd, hyder i fynegi, sgiliau gwerthuso'n feirniadol.
- Datblygu ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd a busnes, a llunio ymateb iddynt, a dod yn ddinasyddion cyfrifol.
- Sut mae artistiaid ac ymarferwyr creadigol wedi ymateb i newid cymdeithasol, gwyliau crefyddol.
- Y ffordd y defnyddir dawnys ar gyfer gwyliau a defodau.
- Defnyddio'r amgylchedd fel gofod perfformio.
- Sut mae pobl wahanol yn dehongli pethau.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Meddylfryd dylunio a'r broses ddylunio.
- Datblygu sgiliau technolegol i ymchwilio.
- Technoleg ddigidol wrth greu a dylunio.
- Datblygu sgiliau echddygol manwl i ddefnyddio offer a datblygu sgiliau echddygol bras i gydgyssylltu symudiadau.
- Ymateb i'r defnyddiau a'r technolegau a ddefnyddir gennym ni ein hunain ac artistiaid.

leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Sut rydym yn defnyddio iaith i gyfleu ein meddyliau, teimladau a syniadau, ac i fynegi ein gwerthfawrogiad beirniadol.
- Archwilio technegau drama, e.e. chwarae rôl, perfformio, drama, ac ymateb iddynt.
- Hunaniaeth – ymateb i ieithoedd Cymru a'r traddodiadau artistig o ganu, cyfansoddi caneuon, adrodd, ysgrifennu creadigol, llenyddiaeth o bob ffurf, eisteddfodau.
- Llythrennedd gweledol; ysgrifennu creadigol; deall cynulleidfa a diben (gan addasu iaith i gynulleidfa); llenyddiaeth; cerddi cyhoeddus; llythrennedd a drama; ffilm; cyfryngau amlgyfrwng; chwarae rôl – cyfathrebu a llafaredd.
- Ymateb i'n gwaith creadigol ein hunain a gwaith creadigol pobl eraill a myfyrio arno, gan ddefnyddio iaith a theminoleg briodol.

Iechyd a Lles

- Dewis, gwneud penderfyniadau, meithrin cydberthnasau cadarnhaol, meddwl yn feirniadol, rhoi adborth adeiladol, sut rydym yn dehongli pethau, barnau unigol.
- Cydberthnasau rhwng yr artist a'r gynulleidfa; sut mae'r Celfyddydau Mynegiannol yn cyfleu emosiwn a pha emosiynau y mae'n ysgogi ynom.
- Meithrin hyder, adeiladu gwydnwch ac iechyd meddwl da.
- Gweithgarwch corfforol – ymwybyddiaeth o'r corff, archwilio sut mae symudiadau gwahanol yn cyfleu emosiynau gwahanol.
- Cydberthnasau a chymryd risg.
- Cyfleu syniadau a theimladau.
- Datblygu lles emosiynol drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau y Celfyddydau Mynegiannol.

Mathemateg a Rhifedd

- Gwybodaeth am gyfrif, dilyniannu, patrymau, cymesuredd, siâp, safleoedd.
- Ymwybyddiaeth ofodol – ystyried sut mae ymarferwyr yn defnyddio gofod i greu effaith a chydabod yr effaith y mae'n ei chael ar y gynulleidfa.

Profiadau, gwybodaeth a sgiliau

Cam cynnydd 1

Yn yr adran hon, pan wneir cyfeiriadau at **elfennau** a **ffurfiau** mae'r rhain yn cynnwys ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r canlynol.

Elfennau

Celf: llinell, siâp, gwead, lliw, ffurf (2D, 3D, 4D), patrwm, naws.

Dawns: corff, gofod, amser, dynameg, cydberthynas, ffurf.

Ffilm a'r cyfryngau digidol: gofod 3D, sain, goleuadau, camera, naratif, arddull, genre, cynulleidfa, cyfansoddiad (gweledol, rhithwir a sonig), ffurf (animeiddio, ffilmio byw, clywedol, ysgrifenedig).

Drama: cymeriad, meddwl, lle, plot, symud, ynganu, naws, traw, tempo, ystum, rhyngweithio.

Cerddoriaeth: traw, dynameg, ansawdd, tempo, soniaredd, rhythm a churiad, strwythur.

Ffuriau

Celf: paentio, argraffu, cerflunio, lluniadu, ffotograffiaeth, tecstilau, crefft, animeiddio, darlunio, dylunio.

Dawns: cyfeiriad, dynameg, symud, cydberthynas, siâp.

Ffilm a'r cyfryngau digidol: (Camau cynnydd 1–5 ond â chymhlethdod cynyddol) animeiddio, rhaglen ddogfen, naratif, print, radio/podlediad, realaeth, naturiolaeth, symbolaeth, fideo, ffotograffiaeth, graffeg, ffurfiau rhithwir, ffurfiau llinol, ffurfiau aflinol, dylunio llwyfannau, cyfryngau cymdeithasol, gemau fideo, cynllunio digwyddiadau.

Drama: (Camau cynnydd 1–5 ond â chymhlethdod cynyddol) comedi, trasiedi, trasigomedi, ffars, sioe gerdd, melodrama, meim, opera, bale.

Cerddoriaeth: ffurf ddwyran, cylchoedd.

Mae angen i ddysgwyr brofi:

- amrywiaeth o brofiadau byw a dilys yn y Celfyddydau Mynegiannol, gan gynnwys profiadau sy'n archwilio ac yn cynrychioli eu cymuned, diwylliant Cymru a diwylliannau o bob cwr o'r byd er mwyn llunio ymateb iddynt
- creu, perfformio ac arddangos eu gwaith eu hunain er mwyn ysgogi cynulleidfa i ymateb.

Mae angen i ddysgwyr wybod:

- sut i fyfyrir ar lwyddiant eu gwaith
- sut i rannu eu syniadau am waith creadigol pobl eraill
- sut i ymateb yn briodol fel aelod o'r gynulleidfa.

Mae angen i ddysgwyr allu:

- rhoi barnau am eu gwaith creadigol eu hunain a gwaith pobl eraill
- adnabod **elfennau**, **ffurfiau** a thechnegau yn eu gwaith creadigol.

Cam cynnydd 2

Yn yr adran hon, pan wneir cyfeiriadau at **elfennau** a **ffurfiau** mae'r rhain yn cynnwys ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r canlynol.

Elfennau

Celf: llinell, siâp, gwead, lliw, ffurf (2D, 3D, 4D), patrwm, nawws, gofod, cyferbyniad.

Dawns: corff, gofod, amser, dynameg, cydberthynas, ffurf, egwyddorion symud.

Ffilm a'r cyfryngau digidol: gofod 3D, sain, goleuadau, camera, naratif, arddull, genre, cynulleidfa, cyfansoddiad (gweledol, rhithwir a sonig), ffurf (animeiddio, ffilmio byw, clywedol, ysgrifenedig).

Drama: cymeriad, amser, lle, plot, tensiwn, lefelau, blocio, symud, nawws, traw, tempo, acen, iaith y corff, mynegiant, ystum, rhyngweithio, ymateb.

Cerddoriaeth: traw, dynameg, ansawdd, tempo, soniaredd, rhythm, mesur, ffurf a strwythur, melodi.

Ffuriau

Celf: paentio, argraffu, cerflunio, lluniadu, ffotograffiaeth, tecstilau, crefft, animeiddio, darlunio, dylunio.

Dawns: cyfeiriad, dynameg, symud, cydberthynas, siâp, motif.

Ffilm a'r cyfryngau digidol: (Camau cynnydd 1–5 ond â chymhlethdod cynyddol) animeiddio, rhaglen ddogfen, naratif, print, radio/podlediad, realaeth, naturiolaeth, symbolaeth, fideo, ffotograffiaeth, graffeg, ffurfiau rhithwir, ffurfiau llinol, ffurfiau aflinol, dylunio llwyfannau, cyfryngau cymdeithasol, gemau fideo, cynllunio digwyddiadau.

Drama: (Camau cynnydd 1–5 ond â chymhlethdod cynyddol) comedi, trasiedi, trasigomedi, ffars, sioe gerdd, melodrama, meim, opera, bale.

Cerddoriaeth: ffurf ddwyran, cylchoedd, teiran.

Mae angen i ddysgwyr brofi:

- amrywiaeth o brofiadau byw a dilys yn y Celfyddydau Mynegiannol, gan gynnwys profiadau sy'n archwilio ac yn cynrychioli'r hunaniaeth ddiwylliannol amrywiol a geir yn eu cymuned, yng Nghymru a phob cwr o'r byd er mwyn ymateb iddynt

- cyd-destunau sy'n eu galluogi i ystyried a gwerthuso gwaith eu cyfoedion mewn ffordd strwythuredig ac iddi ffocws
- creu, perfformio ac arddangos eu gwaith eu hunain er mwyn iddynt allu myfyrio ar ganlyniad y broses greadigol a'i gwerthuso
- proses greadigol sy'n disgwyl i ddysgwyr ymateb i'w gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill, myfyrio arno a'i werthuso er mwyn gwella'r gwaith.

Mae angen i ddysgwyr wybod:

- bod myfyrio, gwerthuso a mireinio yn rhannau pwysig o'r broses greadigol
- sut i werthuso gwaith sy'n ymwneud â'r Celfyddydau Mynegiannol a dysgu drwy ddefnyddio geirfa sy'n perthyn i ddisgyblaeth benodol
- sut i roi adborth (sy'n briodol i'r cam cynnydd) ar ansawdd gwaith i'w cyfoedion.

Mae angen i ddysgwyr allu:

- rhoi barnau am eu gwaith creadigol eu hunain a gwaith pobl eraill
- adnabod enghreifftiau allweddol o dechnegau, confensiynau, **elfennau**, nodweddion, **ffurfiau**, arddulliau, offer a thechnolegau, ymhlith pethau eraill, mewn gwaith creadigol
- cymharu eu gwaith nhw â gwaith creadigol o gyfnodau a diwylliannau gwahanol
- nodi'r syniadau a'r themâu a gynrychiolir mewn gwaith creadigol
- cymharu dehongliadau gwahanol o'r un thema ar draws disgyblaethau
- diwygio eu gwaith eu hunain mewn ymateb i werthusiad beirniadol gan eu cyfoedion a'u hathrawon/ymarferwyr.

Cam cynnydd 3

Yn yr adran hon, pan wneir cyfeiriadau at **elfennau** a **ffurfiau** mae'r rhain yn cynnwys ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r canlynol.

Elfennau

Celf: llinell, siâp, gwead, lliw, ffurf (2D, 3D, 4D), patrwm, naws, gofod, cyferbyniad, ailadrodd, cymesuredd, rhythm, cydbwysedd, amrywiaeth, gwerth, pwyslais, harmoni, cynllun, strwythur, persbectif, cyfansoddiad.

Dawns: corff, gofod, amser, dynameg, cydberthynas, egwyddorion symud, dyfeisiau coreograffig.

Ffilm a'r cyfryngau digidol: gofod 3D, sain, goleuadau, camera, naratif, arddull, genre, cynulleidfa, cyfansoddiad (gweledol, rhithwir a sonig), ffurf (animeiddio, ffilmio byw, clywedol, ysgrifenedig), rhith-wirionedd.

Drama: cymeriad, amser, lle, plot, tensiwn, awyrgylch, ffocws, cyferbyniad, tawelwch, cynefin, lefelau, blocio, symud, naws, traw, tempo, acen, seibiannau, iaith y corff, mynegiant, ystum, rhyngweithio, ymateb.

Cerddoriaeth: traw, dynameg, ansawdd, tempo, soniaredd, rhythm, mesur, ffurf a strwythur, melodi, cyweiredd, dyfeisiau cerddorol (e.e. riff, ostinato, dilyniant).

Ffuriau

Celf: paentio, argraffu, cerflunio, lluniadu, ffotograffiaeth, tecstilau, crefft, animeiddio, darlunio, dylunio.

Dawns: cyfeiriad, dynameg, symud, cydberthynas, siâp, motiff, dyfeisiau coreograffig.

Ffilm a'r cyfryngau digidol: (Camau cynnydd 1–5 ond â chymhlethdod cynyddol) animeiddio, rhaglen ddogfen, naratif, print, radio/podlediad, realaeth, naturiolaeth, symbolaeth, fideo, ffotograffiaeth, graffeg, ffurfiau rhithwir, ffurfiau llinol, ffurfiau aflinol, dylunio llwyfannau, cyfryngau cymdeithasol, gemau fideo, cynllunio digwyddiadau.

Drama: (Camau cynnydd 1–5 ond â chymhlethdod cynyddol) comedi, trasiedi, trasigomedi, ffars, sioe gerdd, melodrama, meim, opera, bale.

Cerddoriaeth: ffurf ddwyran, cylchoedd, teiran, stroffig.

Mae angen i ddysgwyr brofi:

- amrywiaeth o brofiadau byw a dilys yn y Celfyddydau Mynegiannol, gan gynnwys profiadau sy'n archwilio ac yn cynrychioli'r hunaniaeth ddiwylliannol amrywiol a geir yn eu cymuned, yng Nghymru a phob cwr o'r byd er mwyn llunio ymateb iddynt a myfyrio arnynt
- cyd-destunau sy'n eu galluogi i ystyried a gwerthuso gwaith eu cyfoedion mewn ffordd strwythuredig ac iddi ffocws

- creu, perfformio ac arddangos eu gwaith eu hunain er mwyn iddynt allu myfyrio ar ganlyniad y broses greadigol a'i gwerthuso
- myfyrio ar eu gwaith eu hunain a'i fireinio fel rhan o'r broses greadigol.

Mae angen i ddysgwyr wybod:

- bod myfyrio, gwerthuso a mireinio yn rhannau pwysig o'r broses greadigol
- sut i werthuso eu gwaith creadigol eu hunain a gwaith creadigol pobl eraill yn adeiladol drwy ddefnyddio geirfa sy'n perthyn i ddisgyblaeth benodol
- sut i roi adborth priodol ar ansawdd gwaith i'w cyfoedion.

Mae angen i ddysgwyr allu:

- defnyddio geirfa sy'n perthyn i ddisgyblaeth benodol gan gyfleu eu barn am eu gwaith artistig eu hunain neu waith artistig pobl eraill neu eu dehongliadau ohono
- adnabod enghreifftiau allweddol o dechnegau, confensiynau, **elfennau**, nodweddion, **ffurfiau**, arddulliau, offer a thechnolegau, ymhlith pethau eraill, mewn gwaith creadigol
- cysylltu, cymharu a chyferbynnu eu gwaith nhw â gwaith creadigol o gyfnodau a diwylliannau gwahanol
- cymharu dehongliadau gwahanol o'r un thema, delwedd, syniad, cysyniad a thestun o fewn ac ar draws disgyblaethau
- trafod y ffordd y caiff syniadau a themau eu cynrychioli gan ddefnyddio geirfa sy'n perthyn i ddisgyblaeth benodol
- defnyddio terminoleg sy'n perthyn yn benodol i ddisgyblaeth i gyfleu eu barn am eu gwaith artistig eu hunain neu waith artistig pobl eraill neu eu dehongliadau ohono
- dadansoddi sut mae artistiaid, perfformwyr, cyfarwyddwyr, cyfansoddwyr, dramodwyr a chynhyrchwyr yn creu effeithiau, technegau, emosiynau neu ystyr benodol yn eu gwaith creadigol
- mireinio eu gwaith eu hunain mewn ymateb i werthusiad beirniadol gan eu cyfoedion a'u hathrawon/ymarferwyr
- cymryd risgiau pwylllog wrth arfarnu neu werthuso gwaith creadigol
- ymdrin â materion cyfoes.

Cam cynnydd 4

Yn yr adran hon, pan wneir cyfeiriadau at **elfennau** a **ffurfiau** mae'r rhain yn cynnwys ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r canlynol.

Elfennau

Celf: llinell, siâp, gwead, lliw, ffurf (2D, 3D, 4D), patrwm, naws, gofod, cyferbyniad, ailadrodd, cymesuredd, rhythm, cydbwysedd, amrywiaeth, gwerth, pwyslais, harmoni, cynllun, strwythur, persbectif, cyfansoddiad.

Dawns: corff, gofod, amser, dynameg, cydberthynas, egwyddorion symud, dyfeisiau coreograffig.

Ffilm a'r cyfryngau digidol: gofod 3D, sain, goleuadau, camera, naratif, arddull, genre, cynulleidfa, cyfansoddiad (gweledol, rhithwir a sonig), ffurf (animeiddio, ffilmio byw, clywedol, ysgrifenedig), rhith-wirionedd.

Drama: cymeriad, amser, lle, plot, tensiwn, awyrgylch, ffocws, cyferbyniad, tawelwch, cynefin, lefelau, blocio, symud, naws, traw, tempo, acen, seibiannau, iaith y corff, mynegiant, ystum, rhyngweithio, ymateb, cymhellant.

Cerddoriaeth: traw, dynameg, ansawdd, tempo, soniaredd, rhythm, mesur, ffurf a strwythur, melodi, cyweiredd, dyfeisiau cerddorol (e.e. riff, ostinato, dilyniant), harmoni.

Ffuriau

Celf: paentio, argraffu, cerflunio, lluniadu, ffotograffiaeth, tecstilau, crefft, animeiddio, darlunio, dylunio, graffeg.

Dawns: cyfeiriad, dynameg, symud, cydberthynas, siâp, dyfeisiau coreograffig.

Ffilm a'r cyfryngau digidol: (Camau cynnydd 1–5 ond â chymhlethdod cynyddol) animeiddio, rhaglen ddogfen, naratif, print, radio/podlediad, realaeth, naturiolaeth, symbolaeth, fideo, ffotograffiaeth, graffeg, ffurfiau rhithwir, ffurfiau llinol, ffurfiau aflinol, dylunio llwyfannau, cyfryngau cymdeithasol, gemau fideo, cynllunio digwyddiadau.

Drama: (Camau cynnydd 1–5 ond â chymhlethdod cynyddol) comedi, trasiedi, trasigomedi, ffars, sioe gerdd, melodrama, meim, opera, bale.

Cerddoriaeth: ffurf ddwyran, canon, teiran, stroffig, rondo.

Mae angen i ddysgwyr brofi:

- amrywiaeth o brofiadau byw a dilys yn y Celfyddydau Mynegiannol, gan gynnwys profiadau sy'n archwilio ac yn cynrychioli'r hunaniaeth ddiwylliannol amrywiol a geir yn eu cymuned, yng Nghymru a phob cwr o'r byd er mwyn llunio ymateb gwybodus iddynt
- cyd-destunau sy'n eu galluogi i ystyried a gwerthuso gwaith eu cyfoedion mewn ffordd strwythuredig ac iddi ffocws

- creu, perfformio ac arddangos eu gwaith eu hunain er mwyn iddynt allu myfyrio ar ganlyniad y broses greadigol a'i gwerthuso
- cyfleoedd i ymateb i waith creadigol mewn fformat sy'n cael ei gydnabod gan y diwydiannau creadigol a diwylliannol.

Mae angen i ddysgwyr wybod:

- sut i ddehongli gwaith creadigol yn adeiladol gan ddefnyddio geirfa sy'n perthyn i ddisgyblaeth benodol
- sut i roi adborth priodol ar ansawdd gwaith i'w cyfoedion
- sut i ymateb i'w gwaith a'i fireinio o ganlyniad i adborth
- bod myfyrio, gwerthuso a mireinio yn rhannau pwysig o'r broses greadigol
- sut i gymhwyso cysyniadau sy'n perthyn yn benodol i ddisgyblaeth er mwyn gwerthuso darn o waith creadigol
- sut i lunio gwerthusiad priodol ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol a herio canfyddiadau.

Mae angen i ddysgwyr allu:

- cysylltu, cymharu a chyferbynnu eu gwaith nhw â gwaith creadigol o gyfnodau a diwylliannau gwahanol, ac esbonio sut mae hyn wedi dylanwadu ar eu dull gweithredu
- ymdrin â materion cyfoes ac ymateb iddynt yn greadigol gan ddefnyddio'r Celfyddydau Mynegiannol i ddeall materion, digwyddiadau a chwestiynau pwysig
- gwerthuso'n feirniadol, gan ddefnyddio geirfa sy'n perthyn i ddisgyblaeth benodol, y ffordd y caiff syniadau a themâu eu cynrychioli, gan ddangos ymwybyddiaeth o fwriad artistig
- disgrifio, dehongli a gwerthuso perfformiadau, arddangosfeydd, cynrychiadau ac arteffactau
- cymharu a chyferbynnu dehongliadau gwahanol o'r un thema, delwedd, syniad, cysyniad a thestun o fewn ac ar draws disgyblaethau, gan wneud sylwadau ar effaith y dehongliadau
- defnyddio amrywiaeth o **elfennau**, **ffurfiau** a geirfa sy'n perthyn i ddisgyblaeth benodol i gyfleu eu barn am eu gwaith creadigol eu hunain neu waith creadigol pobl eraill neu eu dehongliadau ohono yn hyderus
- dadansoddi sut mae artistiaid, perfformwyr, cyfarwyddwyr, cyfansoddwyr, dramodwyr a chynhyrchwyr yn creu effeithiau, technegau, emosiynau neu ystyr benodol yn eu gwaith creadigol gan ddangos dealltwriaeth o ddylanwad cyfnod, lle a diwylliant
- adnabod a chyfleu cryfderau a gwendidau yn eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill yn hyderus, gan ddefnyddio eu gwybodaeth am y disgyblaethau i awgrymu meysydd i'w gwella
- mireinio eu gwaith mewn ymateb i'w gwerthusiad beirniadol eu hunain, eu cyfoedion a'u hathrawon/ymarferwyr.

Cam cynnydd 5

Yn yr adran hon, pan wneir cyfeiriadau at **elfennau** a **ffurfiau** mae'r rhain yn cynnwys ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r canlynol.

Elfennau

Celf: llinell, siâp, gwead, lliw, ffurf (2D, 3D, 4D), patrwm, naws, gofod, cyferbyniad, ailadrodd, cymesuredd, rhythm, cydbwysedd, amrywiaeth, gwerth, pwyslais, harmoni, cynllun, strwythur, persbectif, cyfansoddiad, undod.

Dawns: corff, gofod, amser, dynameg, cydberthynas, **ffurf**, egwyddorion symud, dyfeisiau coreograffig.

Ffilm a'r cyfryngau digidol: gofod 3D, sain, goleuadau, camera, naratif, arddull, genre, cynulleidfia, cyfansoddiad (gweledol, rhithwir a sonig), ffurf (animeiddio, ffilmio byw, clywedol, ysgrifenedig), rhith-wirionedd.

Drama: cymeriad, amser, lle, plot, tensiwn, awyrgylch, ffocws, cyferbyniad, tawelwch, cynefin, lefelau, blocio, symud, naws, traw, tempo, acen, seibiannau, iaith y corff, mynegiant, ystum, rhyngweithio, ymateb, cymhelliant, bwriad, ailddehongli.

Cerddoriaeth: traw, melodi, dynameg, ansawdd, tempo, soniared, rhythm, mesur, ffurf a strwythur, melodi, cyweiredd, dyfeisiau cerddorol (e.e. riff, ostinato, dilyniant), harmoni, tonyddiaeth.

Ffuriau

Celf: paentio, argraffu, cerflunio, lluniadu, ffotograffiaeth, tecstilau, crefft, animeiddio, darlunio, graffeg.

Dawns: cyfeiriad, dynameg, symud, cydberthynas, siâp, dyfeisiau coreograffig.

Ffilm a'r cyfryngau digidol: (Camau cynnydd 1–5 ond â chymhlethdod cynyddol) animeiddio, rhaglen ddogfen, naratif, print, radio/podlediad, realaeth, naturiolaeth, symbolaeth, fideo, ffotograffiaeth, graffeg, ffurfiau rhithwir, ffurfiau llinol, ffurfiau aflinol, dylunio llwyfannau, cyfryngau cymdeithasol, gemau fideo, cynllunio digwyddiadau.

Drama: (Camau cynnydd 1–5 ond â chymhlethdod cynyddol) comedi, trasiedi, trasigomedi, ffars, sioe gerdd, melodrama, meim, opera, bale.

Cerddoriaeth: ffurf ddwyran, canon a ffiwg, teiran, stroffig, rondo, thema ac amrywiad, trwy-gyfansawdd, sonata.

Mae angen i ddysgwyr brofi:

- amrywiaeth o brofiadau byw a dilys yn y Celfyddydau Mynegiannol, gan gynnwys profiadau sy'n archwilio ac yn cynrychioli eu cymuned, diwylliant Cymru a diwylliannau o bob cwr o'r byd er mwyn myfyrio'n feirniadol arnynt

- cyd-destunau sy'n eu galluogi i ystyried a gwerthuso gwaith eu cyfoedion mewn ffordd strwythuredig ac iddi ffocws
- creu, perfformio ac arddangos eu gwaith eu hunain er mwyn iddynt allu myfyrio ar ganlyniad y broses greadigol a'i gwerthuso
- tasgau creadigol sy'n gofyn iddynt ymateb i waith creadigol mewn ffordd ffurfiol neu arfarnu gwaith artistiaid, cerddorion, perfformwyr, ymarferwyr theatr neu gynhyrchwyr cyfryngau digidol eraill
- cyfleoedd i fireinio, gwerthuso a myfyrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill ac ymateb iddo, fel eu bod yn gwella eu gwaith creadigol eu hunain
- cyfleoedd i werthuso'n feirniadol gwaith creadigol mewn fformat sy'n cael ei gydnabod gan y diwydiannau creadigol a diwylliannol.

Mae angen i ddysgwyr wybod:

- sut i werthuso gwaith creadigol yn adeiladol gan ddefnyddio geirfa sy'n perthyn i ddisgyblaeth benodol
- sut i roi adborth priodol ar ansawdd gwaith i'w cyfoedion
- sut i ymateb i adborth gyda gwydnwch a mireinio eu gwaith yn annibynnol o ganlyniad i'r adborth
- sut i gymhwyso fframwaith beirniadol neu gysyniadau sy'n perthyn i ddisgyblaeth benodol er mwyn gwerthuso darn o waith creadigol
- sut i lunio gwerthusiad beirniadol ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol gan ddefnyddio'r hyn y maent yn gwybod am yr hyn sy'n gyfystyr â gwaith creadigol effeithiol, gan dynnu ar eu sgiliau cyffredinol a'u sgiliau sy'n perthyn yn benodol i ddisgyblaeth
- sut i roi dadleuon neu gyfiawnhad rhesymegol sy'n cefnogi'r dewisiadau a wnânt wrth greu gwaith creadigol gwreiddiol eu hunain
- sut mae ystyriaethau moesegol am les personol a lles pobl eraill yn dangos iddynt sut i ymateb yn briodol fel creawdwr neu aelod o gynulleidfa.

Mae angen i ddysgwyr allu:

- disgrifio, dehongli, damcaniaethu a gwerthuso perfformiadau, arddangosfeydd, cynrychiadau ac arteffactau
- dadansoddi effeithiolrwydd enghreifftiau allweddol o dechnegau, nodweddion, arddulliau, **elfennau**, confensiynau, offer a thechnolegau, a **ffurfiau**, ac ati, mewn disgyblaethau penodol
- cysylltu, cymharu a chyferbynnu eu gwaith nhw â gwaith creadigol o gyfnodau a diwylliannau gwahanol ac esbonio sut mae hyn wedi dylanwadu ar eu dull gweithredu – gallai hyn gynnwys gwaith rhyngddisgyblaethol neu waith sy'n perthyn i ddisgyblaeth benodol
- ymateb i faterion cyfoes a myfyrio arnynt yn greadigol
- meddwl yn fyfyrion, yn atblygol, yn greadigol, yn feirniadol ac yn dechnegol er mwyn datblygu ymatebion i gelf greadigol a llunio dadleuon i feirniadu gwaith
- gwerthuso ac arfarnu'n feirniadol, gan ddefnyddio geirfa sy'n perthyn i ddisgyblaeth benodol, y ffordd y caiff syniadau a themâu eu cynrychioli ym mhob un o ddisgyblaethau'r Celfyddydau Mynegiannol, gan ddangos ymwybyddiaeth o fwriad artistig
- beirniadu dehongliadau gwahanol o'r un thema, delwedd, syniad, cysyniad a thestun o fewn ac ar draws disgyblaethau, gan wneud sylwadau ar effaith y dehongliadau

- defnyddio amrywiaeth o eirfa sy'n perthyn i ddisgyblaeth benodol yn rheolaidd ac yn rhugl i gyfleu eu barnau am eu gwaith artistig eu hunain neu waith artistig pobl eraill neu eu dehongliadau ohonynt yn hyderus
- dadansoddi pa mor effeithiol y mae artistiaid, perfformwyr, cyfarwyddwyr, cyfansoddwyr, dramodwyr a chynhyrchwyr yn creu a defnyddio effeithiau, technegau neu ystyr benodol yn eu gwaith creadigol gan ddangos dealltwriaeth o ddylanwad cyfnod, lle a diwylliant
- adnabod a chyfleu cryfderau a gwendidau yn eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill yn hyderus, a, chan ddefnyddio eu gwybodaeth am ddisgyblaethau yn y Celfyddydau Mynegiannol, roi dadleuon rhesymegol dros ffyrdd o wella'r gwaith
- dangos craffter a'r gallu i fyfyrion dros waith eu hunain wrth ddatblygu syniadau creadigol o'r dechrau hyd nes y cwblheir tasg, y perfformiad neu'r cynhyrchiad
- asesu a mireinio eu gwaith eu hunain mewn ymateb i werthusiad beirniadol gan eu cyfoedion a'u hathrawon/ymarferwyr ac yn seiliedig ar eu gwerthusiad eu hunain o'r gwaith
- ymateb yn gadarnhaol wrth werthuso gwaith eu hunain ac wrth dderbyn gwerthusiad gan bobl eraill tra'n parhau i fod â hyder yn eu gwaith creadigol eu hunain
- amddiffyn, ar lafar ac yn ysgrifenedig, y dewisiadau a wnânt wrth greu gwaith, gan gyfiawnhau pam y maent wedi ymdrin ag ef mewn ffordd benodol
- defnyddio eu gwybodaeth am hanes, diwylliant ac arddulliau, technegau, offer a thechnolegau, a thraddodiadau i gyfiawnhau eu dewisiadau wrth fyfyrion ar eu gwaith creadigol neu ei werthuso.



YR HYN SY’N BWYSIG YN Y CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL

Mae gwaith creadigol yn cyfuno gwybodaeth a sgiliau gan ddefnyddio’r synhwyr, ysbrydoliaeth a dychymyg.

Mae creu yn y Celfyddydau Mynegiannol yn cwmpasu amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys cynllunio, drafftio, dyfeisio, gwneud, coreograffu, siapio, cyfansoddi a golygu yn ogystal â pherfformio, cyflwyno, rhannu, arddangos a chynhyrchu. Mae mynd ati i greu yn galluogi dysgwyr i ystyried beth y maent yn ei wybod am y Celfyddydau Mynegiannol, a sut y gallant ddefnyddio eu sgiliau. Mae creu hefyd yn galw am harneisio pŵer dychymyg ym mhob un o’r disgyblaethau.

Mae creu yn gofyn i ddysgwyr ddatblygu a dangos rheolaeth ar amrywiaeth o sgiliau creadigol ym mhob disgyblaeth. Mae’r broses creadigol yn galluogi’r dysgwyr i gyd i ymdrin ag amrywiaeth o ffurfiau a disgyblaethau ac i gyfathrebu drwyddynt. Gallant ymwneud â nhw fel disgyblaethau unigol neu fel ffurfiau rhyngddisgyblaethol yn unol â diddordebau, sgiliau a thalentau personol y dysgwyr.

Drwy greu, bydd dysgwyr yn gweithio’n annibynnol ac yn cydweithredu fel cyd-greawdwy o fewn ac ar draws y disgyblaethau. Wrth wneud hyn, cânt gyfleoedd i fod yn arloesol ac yn feiddgar, i greu gwaith unigol ac i ddatblygu eu hunaniaeth eu hunain fel artistiaid yng Nghymru. Os bydd eu syniadau gwreiddiol yn gofyn am ddulliau gweithredu newydd, bydd angen i ddysgwyr ddangos gallu i fod yn amryddawn a hyblyg, gan gymryd risg i addasu a chreu’n fyrfyfyr.

O ran mentergarwch, drwy ymwneud â’r broses creadigol, bydd dysgwyr yn adnabod cyfleoedd i drawsnewid eu syniadau i fod yn rhai sydd â gwerth masnachol a diwylliannol. Byddant yn defnyddio eu sgiliau creadigol i wireddu pob math o uchelgais. Byddant hefyd yn datblygu dyfalbarhad a gwydnwch er mwyn mireinio eu sgiliau creadigol a deall bod hyn yn rhan bwysig o’r broses creadigol. Yn gryno, bydd dysgwyr yn datblygu talentau a sgiliau sy’n hanfodol i ffyniant Cymru yn y dyfodol.

Dysgu

Egwyddorion cynnydd

Egwyddorion cynnydd yw'r sail ar gyfer datblygu'r deilliannau cyflawniad a dylent lywio dilyniant y dysgu o fewn y maes dysgu a phrofiad.

Awgryma'r ymchwil fod cynnydd yn y Celfyddydau Mynegiannol, ac mewn creadigrwydd yn fwy cyffredinol, yn dueddol o ddatblygu trwy ddefnyddio ac aildddefnyddio sgiliau cyfarwydd, ond ar adegau gallai hefyd fod yn naid ansoddol. Nid yw'n broses sy'n dilyn trywydd unionsyth ac nid oes un llwybr sy'n gyffredin i bawb. Gallai dysgwyr symud yn ôl ac ymlaen yn rhwydd wrth brofi gweithgareddau Celfyddydau Mynegiannol ac mae gwahanol ddysgwyr yn dueddol o ddatblygu mewn ffyrdd gwahanol iawn.

Mae'n amlwg bod yr amgylchedd y mae'r disgyblion yn dysgu ynddo, gan gynnwys ansawdd yr addysgu, yn ffactor pwysig wrth hwyluso cynnydd. Yn bennaf, ceir neges glir yn yr ymchwil mai dulliau ansoddol, disgrifiadol o asesu cyflawniad a chynnydd yw'r dulliau mwyaf addas. Mae ffactorau perthnasol i gynnydd yn y Celfyddydau Mynegiannol yn cynnwys y canlynol.

Cymhlethdod: Gall materion yr ymdrinnir â nhw gan ddysgwyr iau gael eu hailystyried gan ddysgwyr hŷn mewn ffyrdd mwy cymhleth a soffistigedig.

Rheolaeth: Dylai dysgwyr ennill mwy a mwy o reolaeth dros ddulliau mynegi'r Celfyddydau Mynegiannol.

Dyfnder: Mae dysgwyr yn symud o amrywiaeth eang o brofiadau yn y Celfyddydau Mynegiannol i archwilio eu dysgu mewn mwy o ddyfnder.

Annibyniaeth: Mae dysgwyr yn dod yn fwyfwy annibynnol.

Cam cynnydd 1

Deilliannau cyflawniad

Gallaf ddewis o amrywiaeth o dechnegau, deunyddiau ac adnoddau, offer a thechnolegau creadigol er mwyn cyfleu fy syniadau, fy nheimpladau a'm hatgofion.

Gallaf weithio ar y cyd ac yn annibynnol er mwyn cynrychioli syniadau sydd wedi'u hysbrydoli gan arbrofi a chwarae'n bwrpasol.

Gallaf weithio ar fy mhen fy hun a chydag eraill i rannu neu gyflwyno fy ngwaith creadigol.

Gallaf adnabod, drwy chwarae, amrywiaeth o dechnegau, deunyddiau ac adnoddau, offer a thechnolegau creadigol i fynegi a chyfathrebu.

Gallaf ddewis technegau, deunyddiau ac adnoddau, offer a thechnolegau yn fy ngwaith creadigol er mwyn cyflawni canlyniadau gwahanol gan roi rhesymau dros fy newisiadau.

Cam cynnydd 2

Deilliannau cyflawniad

Gallaf ddewis o amrywiaeth o dechnegau, deunyddiau ac adnoddau, offer a thechnolegau creadigol a'u defnyddio i gyfleu syniadau, teimladau ac atgofion at amrywiaeth o ddibenion.

Gallaf berfformio, cynhyrchu, arddangos a rhannu fy ymatebion creadigol mewn amrywiaeth o ffyrdd ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol ar fy mhen fy hun a chydag eraill.

Gallaf ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau, deunyddiau ac adnoddau, offer a thechnolegau i gyflawni canlyniadau gwahanol.

Gallaf arbrofi â phriodoleddau gweledol, cyffyrddol a synhwyrdd gan wneud newidiadau addas i'm gwaith pan nodir bod angen ei newid.

Gallaf adnabod heriau ac ymateb iddynt yn greadigol.

Gallaf ddangos gwydnwch a hyblygrwydd wrth fynd i'r afael â heriau clywedol, geiriol, gweledol, cerddorol, llafar, corfforol a thechnolegol.

Gallaf berfformio a chynhyrchu gwaith creadigol sydd wedi'i ysbrydoli gan amrywiaeth o sbardunau a phrofiadau.

Gallaf ddefnyddio fy mhrofiad o waith creadigol a hunaniaethau diwylliannol amrywiol fy nghymuned, Cymru a'r byd ehangach.

Cam cynnydd 3

Deilliannau cyflawniad

Gallaf lunio gwaith creadigol i gyflawni canlyniadau gwahanol gan ddefnyddio cyfuniad o ddisgyblaethau, drwy ddefnyddio technegau, deunyddiau ac adnoddau, offer a thechnolegau â rheolaeth gynyddol.

Gallaf ddangos gwydnwch a hyblygrwydd wrth fynd i'r afael â heriau creadigol.

Gallaf addasu fy ngwaith pan fo angen.

Gallaf gyfuno'r hyn rwy'n ei wybod a'm dealltwriaeth mewn perthynas ag arferion, **ffurfiau**, arddulliau a genres a chonfensiynau creadigol ym meysydd celf, cerddoriaeth, dawn, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol yn hyderus er mwyn creu gwaith at wahanol ddibenion.

Gallaf greu a gwneud at ddiben penodol ac ystyried effaith fy ngwaith ar y gynulleidfa.

Gallaf roi a derbyn awgrymiadau yn ystod y broses greadigol er mwyn datblygu fy ngwaith creadigol a gwaith creadigol pobl eraill.

Gallaf gydweithio i greu gwaith sy'n dangos rheolaeth gynyddol o ran amrywiaeth o sgiliau ar draws disgyblaethau'r Celfyddydau Mynegiannol.

Gallaf gyfathrebu'n greadigol gan ddefnyddio cynrychiolaeth symbolaidd, delweddau, synau neu symudiadau ac ystyried effaith fy ngwaith creadigol ar gynulleidfa.

Gallaf berfformio a chyflwyno fy ngwaith creadigol sydd wedi'i ysbrydoli gan amrywiaeth o sbardunau a phrofiadau gan gynnwys hunaniaethau diwylliannol amrywiol fy nghymuned, Cymru a'r byd ehangach.

Gallaf ddefnyddio'r hyn rwy'n ei wybod a'm profiad o waith creadigol o hunaniaethau diwylliannol fy nghymuned, Cymru a'r byd ehangach a lleoedd a chyfnodau gwahanol i greu fy ngwaith fy hun.

Cam cynnydd 4

Deilliannau cyflawniad

Gallaf ddefnyddio fy ngweithgarwch arbrofi ac ymchwilio i drin technegau, deunyddiau ac adnoddau, offer a thechnolegau creadigol mewn cyfuniad o ddisgyblaethau, gyda phwrpas a bwriad.

Gallaf weithio'n annibynnol neu gydweithio ag eraill i gynhyrchu, perfformio a chyflwyno canlyniadau arbrofi, creu'n fyrfyr ac ymholi creadigol ym meysydd celf, cerddoriaeth, dawns, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol.

Gallaf gyfleu a mynegi fy syniadau yn llwyddiannus er mwyn dangos fy mod yn datblygu sgiliau sy'n perthyn yn benodol i ddisgyblaeth.

Gallaf ddefnyddio syniadau, themâu a thechnegau ymarferwyr creadigol yn ddychmygus ac yn gysniadol yn fy ngwaith creadigol fy hun.

Gallaf ddangos fy mod yn deall sut rwy'n defnyddio syniadau, themâu a thechnegau ymarferwyr creadigol yn fy ngwaith creadigol fy hun.

Gallaf ddefnyddio ymchwil i amrywiaeth o dechnegau, deunyddiau ac adnoddau, offer a thechnolegau i ddylanwadu'n gadarnhaol ar fy ngwaith creadigol a dangos fy nealltwriaeth o draddodiadau, ffurfiau, arddulliau a genres.

Gallaf ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau, deunyddiau ac adnoddau, offer a thechnolegau i oresgyn heriau mewn ffordd llawn dychymyg.

Gallaf oresgyn heriau creadigol drwy ddefnyddio fy mhrofiadau a'r hyn rwy'n ei wybod i lywio a datblygu strategaethau.

Gallaf greu, cynhyrchu, rhannu a pherfformio gwaith sy'n dangos ymwybyddiaeth o fwriad artistig a chynulleidfa.

Gallaf gydweithio i greu gwaith ym mhob un o ddisgyblaethau'r Celfyddydau Mynegiannol a chyd-berchnogi'r broses greadigol.

Cam cynnydd 5

Deilliannau cyflawniad

Gallaf ddwyn ynghyd a chymhwyso'r hyn rwy'n ei wybod a dealltwriaeth er mwyn defnyddio technegau, deunyddiau ac adnoddau, offer a thechnolegau creadigol mewn cyfuniad o ddisgyblaethau, mewn ffordd soffistigedig a chyda bwriad.

Gallaf gynhyrchu gwaith creadigol gwreiddiol sy'n defnyddio'r disgyblaethau a'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n gysylltiedig â nhw gan weithio'n annibynnol ac ar y cyd.

Gallaf greu gwaith ym mhob un o'r Celfyddydau Mynegiannol ac mewn disgyblaethau penodol a dangos dealltwriaeth o'r dulliau gweithredu a fabwysiadwyd gan ymarferwyr creadigol sydd wedi dylanwadu arnaf.

Gallaf ddefnyddio strategaethau effeithiol i gymryd risg gyda fy ngwaith fy hun a dangos gwydnwch i oresgyn heriau creadigol.

Gallaf ddangos rheolaeth dechnegol ar wahanol ffurfiau, arddulliau a genres o waith creadigol ym mhob un o'r disgyblaethau.

Gallaf gyflwyno fy mwriad creadigol i gyfathrebu â chynulleidfa benodol, a gallaf weithio o fewn terfynau briff yn ystod y broses creadigol.

Gallaf ystyried diben a chynulleidfa mewn ffordd wybodus wrth berfformio, cyflwyno a marchnata fy ngwaith creadigol.

Gallaf ddangos yn bwrpasol sut mae hunaniaethau diwylliannol amrywiol fy nghymuned, Cymru a'r byd ehangach wedi dylanwadu ar fy ngwaith creadigol gwreiddiol.

Cynllunio ar gyfer dysgu

Cysylltiadau o fewn y maes dysgu a phrofiad hwn

Mae'r adran hon yn dangos nad yw'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Celfyddydau Mynegiannol yn dilyn trywydd unionsyth, maent yn gydgyssylltiedig. Gyda'i gilydd, maent yn galluogi dysgwyr i ymwneud yn llawn â'r broses greadigol a rennir gan bum disgyblaeth benodol y Celfyddydau Mynegiannol.

Fel rhan o'r broses greadigol, sy'n cael ei gynrychioli yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, dylai dysgwyr allu archwilio, ymateb i a chreu eu gwaith eu hunain wrth gael profiadau cyfoethog, dilys. Er enghraifft, drwy archwilio genre, arddull, artist, ac ati, mae dysgwyr yn dechrau ffurfio barn am waith creadigol pobl eraill a'i werthfawrogi, yn ogystal ag arbrofi gyda gwahanol ddeunyddiau a phrosesau ac ati. Gallant wedyn ddefnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n cael eu hennill fel rhan o'r archwilio hwn i ysbrydoli eu gwaith creadigol eu hunain, gan barhau i fyfrio ar eu gwaith fel rhan o'r broses greadigol.

Cysylltiadau allweddol â meysydd dysgu a phrofiad eraill

Mae'r adran hon yn awgrymu lle gellid cyfoethogi dysgu drwy wneud cysylltiadau rhwng datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad. Mae hefyd yn awgrymu ymhle gellid ystyried gwahanol elfennau o ddysgu gyda'i gilydd er mwyn cefnogi dysgu sy'n fwy holistaidd.

Dyniaethau

- Creu ffurfiau gwahanol ar gelfyddyd sy'n cynrychioli cyfnodau, diwylliannau a chymdeithasau gwahanol.
- Creu amrywiaeth o weithiau celf drwy ddefnyddio cymdeithas, moeseg ac amgylchedd i ysbrydoli a llywio ein gwaith.
- Ystyried cynaliadwyedd wrth wneud gwaith creadigol.
- Creu gwaith celf ar gyfer gweithgareddau menter.
- Sut mae artistiaid ac ymarferwyr creadigol wedi ymateb i newid cymdeithasol, gwyliau crefyddol; y ffordd y defnyddir dawnys ar gyfer gwyliau a defodau.
- Defnyddio'r amgylchedd fel gofod perfformio.
- Sut mae pobl wahanol yn dehongli pethau.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Meddylfryd dylunio a'r broses ddylunio.
- Datblygu sgiliau technolegol i ymchwilio.
- Technoleg ddigidol wrth greu a dylunio.
- Datblygu sgiliau echddygol manwl i ddefnyddio offer a datblygu sgiliau echddygol bras i gydgyssylltu symudiadau.
- Defnyddio defnyddiau ac offer i greu'n effeithiol.

Iechyd a Lles

- Cydberthnasau rhwng yr artist a'r gynulleidfa, sut mae'n cyfleu emosiwn a pha emosiynau y mae'n ysgogi ynom.
- Meithrin hyder, adeiladu gwydnwch ac iechyd meddwl.
- Gweithgarwch corfforol – ymwybyddiaeth o'r corff, archwilio sut mae symudiadau gwahanol yn cyfleu emosiynau gwahanol.
- Cydberthnasau a chymryd risg.
- Cyfleu syniadau a theimladau.
- Datblygu lles emosiynol drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau Celfyddydau Mynegiannol.

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Defnyddio amrywiaeth o dechnegau drama i greu ystyr.
- Defnyddio ieithoedd, llenyddiaeth a thraddodiadau artistig Cymru i ysgogi eu gwaith eu hunain.
- Creu at amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd.

Mathemateg a Rhifedd

- Graddfa, maint, cymhareb, cyfrif, dilyniannu, patrymau, cymesuredd, siâp, safleoedd.
- Ffracsiynau mewn cerddoriaeth.
- Rhythm.
- Amseru, cyfyngiadau amser a sut i'w defnyddio'n briodol i gyflawni'r canlyniad a ddymunir.
- Ymwybyddiaeth ofodol – gwneud defnydd effeithiol o'r gofod wrth greu.

Profiadau, gwybodaeth a sgiliau

Cam cynnydd 1

Yn yr adran hon, pan wneir cyfeiriadau at **elfennau** a **ffurfiau** mae'r rhain yn cynnwys ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r canlynol.

Elfennau

Celf: llinell, siâp, gwead, lliw, ffurf (2D, 3D, 4D), patrwm, naws.

Dawns: corff, gofod, amser, dynameg, cydberthynas, ffurf.

Ffilm a'r cyfryngau digidol: gofod 3D, sain, goleuadau, camera, naratif, arddull, genre, cynulleidfa, cyfansoddiad (gweledol, rhithwir a sonig), ffurf (animeiddio, ffilmio byw, clywedol, ysgrifenedig).

Drama: cymeriad, meddwl, lle, plot, symud, ynganu, naws, traw, tempo, ystum, rhyngweithio.

Cerddoriaeth: traw, dynameg, ansawdd, tempo, soniaredd, rhythm a churiad, strwythur.

Ffuriau

Celf: paentio, argraffu, cerflunio, lluniadu, ffotograffiaeth, tecstilau, crefft, animeiddio, darlunio, dylunio.

Dawns: cyfeiriad, dynameg, symud, cydberthynas a siâp.

Ffilm a'r cyfryngau digidol: (Camau cynnydd 1–5 ond â chymhlethdod cynyddol) animeiddio, rhaglen ddogfen, naratif, print, radio/podlediad, realaeth, naturiolaeth, symbolaeth, fideo, ffotograffiaeth, graffeg, ffurfiau rhithwir, ffurfiau llinol, ffurfiau aflinol, dylunio llwyfannau, cyfryngau cymdeithasol, gemau fideo, cynllunio digwyddiadau.

Drama: (Camau cynnydd 1–5 ond â chymhlethdod cynyddol) comedi, trasiedi, trasigomedi, ffars, sioe gerdd, melodrama, meim, opera, bale.

Cerddoriaeth: ffurf ddwyran, cylchoedd.

Mae angen i ddysgwyr brofi:

- amrywiaeth o weithgareddau chwarae a gweithgareddau creadigol a gychwynnir gan blant ac a arweinir gan oedolion
- traddodiadau a dathliadau o wahanol gyfnodau, lleoedd a diwylliannau drwy gelf, cerddoriaeth, dawns, drama a ffilm a'r cyfryngau digidol o'u cymuned, Cymru a'r byd ehangach drwy berfformio a chreu
- perfformio'n fyw o fewn yr ysgol a thu hwnt iddi
- rhannu eu gwaith mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol

- y broses greadigol yn unigol ac ar y cyd fel y bo'n briodol i'r cyd-destun dysgu
- amrywiaeth o sgiliau ymarferol yn greadigol o fewn chwarae pwrpasol
- cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol sy'n dathlu ac yn hyrwyddo'r Celfyddydau Mynegiannol
- amrywiaeth o adnoddau a sbardunau i greu gwaith creadigol sydd wedi'i ysbrydoli gan ddiwylliant Cymru a'r byd
- gweithgareddau sy'n datblygu eu sgiliau gweledol, clywedol a chinesthetig.

Mae angen i ddysgwyr wybod:

- sut i gynllunio a pharatoi ar gyfer cynhyrchu gwaith creadigol
- sut i rannu eu bwriadau creadigol a mynegi eu barnau eu hunain
- sut i ddefnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu o chwarae pwrpasol, ymholi a dychmygu i lywio eu gwaith creadigol
- sut i gyfleu eu syniadau i eraill a datrys problemau
- sut i gyfrannu'n bwrpasol at waith creadigol unigol a chydweithredol gan fynegi eu barnau eu hunain
- sut i ddatblygu, cymhwyso ac ymestyn eu syniadau creadigol mewn gwahanol gyfryngau, gan gynnwys y cyfryngau digidol, a defnyddio offer yn ddiogel gan fod yn ymwybodol o berygl
- sut i ddatblygu eu sgiliau gweledol, clywedol a chinesthetig
- sut i ddangos perchenogaeth o waith a grëwyd ganddynt.

Mae angen i ddysgwyr allu:

- creu gwaith sy'n cynrychioli eu syniadau a'u teimladau eu hunain er mwyn iddo gael ei berfformio neu ei rannu
- cynhyrchu gwaith creadigol mewn ymateb i sbardunau gan ddefnyddio dychymyg, arsylwadau a dyfeisgarwch gyda deunyddiau
- defnyddio amrywiaeth o offer, adnoddau a thechnolegau yn ddiogel a chyda rheolaeth
- defnyddio amrywiaeth o **elfennau** a **ffurfiau** yn eu gwaith creadigol
- defnyddio cyfuniad cyfoethog o ddeunyddiau ysgogi a fydd yn ysgogi dehongli creadigol, megis ffotograffau, testunau o'r cyfryngau, naratifau ac arteffactau
- defnyddio cyfryngau sy'n gweddu i'w cryfderau unigol, gan gymryd risg lle y bo angen a'u galluogi i gyfathrebu/ymateb yn y ffordd fwyaf effeithiol
- datblygu, cymhwyso ac ymestyn eu syniadau creadigol mewn gwahanol gyfryngau, gan gynnwys cyfryngau digidol, a defnyddio offer yn ddiogel gan fod yn ymwybodol o berygl
- cymhwyso eu sgiliau gweledol, eu sgiliau clywedol a'u sgiliau cinesthetig ymarferol
- cymhwyso cysyniadau perthnasol sy'n ymwneud â siâp, nifer a gofod wrth greu gwaith yn y Celfyddydau Mynegiannol.

Cam cynnydd 2

Yn yr adran hon, pan wneir cyfeiriadau at **elfennau** a **ffurfiau** mae'r rhain yn cynnwys ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r canlynol.

Elfennau

Celf: llinell, siâp, gwead, lliw, ffurf (2D, 3D, 4D), patrwm, naws, gofod, cyferbyniad.

Dawns: corff, gofod, amser, dymeg, cydberthynas, ffurf, egwyddorion symud.

Ffilm a'r cyfryngau digidol: gofod 3D, sain, goleuadau, camera, naratif, arddull, genre, cynulleidfa, cyfansoddiad (gweledol, rhithwir a sonig), ffurf (animeiddio, fflmio byw, clywedol, ysgrifenedig).

Drama: cymeriad, amser, lle, plot, tensiwn, lefelau, blocio, symud, naws, traw, tempo, acen, iaith y corff, mynegiant, ystum, rhyngweithio, ymateb.

Cerddoriaeth: traw, dymeg, ansawdd, tempo, soniaredd, rhythm, mesur, ffurf a strwythur, melodi.

Ffuriau

Celf: paentio, argraffu, cerflunio, lluniadu, ffotograffiaeth, tecstilau, crefft, animeiddio, darlunio, dylunio.

Dawns: cyfeiriad, dymeg, symud, cydberthynas, siâp, motiff.

Ffilm a'r cyfryngau digidol: (Camau cynnydd 1–5 ond â chymhlethdod cynyddol) animeiddio, rhaglen ddogfen, naratif, print, radio/podlediad, realaeth, naturiolaeth, symbolaeth, fideo, ffotograffiaeth, graffeg, ffurfiau rhithwir, furiau llinol, ffurfiau aflinol, dylunio llwyfannau, cyfryngau cymdeithasol, gemau fideo, cynllunio digwyddiadau.

Drama: (Camau cynnydd 1–5 ond â chymhlethdod cynyddol) comedi, trasiedi, trasigomedi, ffars, sioe gerdd, melodrama, meim, opera, bale.

Cerddoriaeth: ffurf ddwyran, cylchoedd, teiran.

Mae angen i ddysgwyr brofi:

- gweithgareddau sy'n eu helpu i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau ymarferol ym meysydd celf, cerddoriaeth, dawns, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol
- celf, cerddoriaeth, dawns, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol o wahanol gyfnodau, lleoedd a diwylliannau drwy berfformio a chreu
- celf, cerddoriaeth, dawns, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol o'u cymuned a'r byd ehangach, drwy berfformio a chreu
- perfformio'n fyw o fewn yr ysgol a thu hwnt iddi

- rhannu, perfformio, dangos, cynhyrchu ac arddangos eu gwaith mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol
- y broses greadigol, yn unigol ac ar y cyd, mewn cyd-destunau dilys
- cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol sy'n dathlu ac yn hyrwyddo'r Celfyddydau Mynegiannol
- adnoddau sy'n eu hysgogi i gynhyrchu gwaith creadigol sydd wedi'i ysbrydoli gan ddiwylliant Cymru a'r byd
- gweithgareddau sy'n datblygu eu sgiliau gweledol a chlywedol a'u sgiliau cinesthetig ymarferol.

Efallai y bydd angen i ddysgwyr sydd â thalentau penodol neu ddiddordeb penodol mewn disgyblaethau penodol o'r Celfyddydau Mynegiannol gael hyfforddiant arbenigol er mwyn eu helpu i ddatblygu sgiliau penodol.

Mae angen i ddysgwyr wybod:

- sut i gynllunio a pharatoi ar gyfer cynhyrchu gwaith creadigol ym meysydd celf, cerddoriaeth, dawns, drama a ffilm a'r cyfryngau digidol
- sut i ddefnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu drwy arbrofi ac ymchwilio i lywio eu gwaith creadigol
- sut i wneud dewisiadau a mynegi eu barnau eu hunain am y ffyrdd mwyaf effeithiol o gyfleu eu syniadau a'u hemosiynau
- sut i gyfrannu'n bwrpasol at waith creadigol cydweithredol ac unigol
- sut i ddatblygu eu sgiliau gweledol, clywedol a chinesthetig
- sut i ddatblygu, cymhwyso, cymryd risg ac ymestyn eu syniadau creadigol mewn gwahanol gyfryngau, gan gynnwys y cyfryngau digidol
- sut i ddefnyddio offer yn ddiogel gan fod yn ymwybodol o berygl
- sut i ddangos perchenogaeth o'u gwaith creadigol a pharchu gwaith pobl eraill.

Mae angen i ddysgwyr allu:

- creu gwaith sy'n cynrychioli eu syniadau eu hunain neu sy'n efelychu syniadau pobl eraill, i'w berfformio, ei rannu neu ei gyhoeddi
- cynhyrchu gwaith at ddiben penodol, gan ddangos y gallu i ymateb mewn ffordd llawn dychymyg
- dewis **elfennau**, **ffurfiau**, offer a thechnolegau, adnoddau a thechnegau priodol i'w galluogi i feistroli sgiliau neu arddangos eu gwaith
- defnyddio amrywiaeth o offer a thechnolegau ac adnoddau yn ddiogel a chyda rheolaeth gynyddol
- cynhyrchu celf, cerddoriaeth, dawns, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol mewn ymateb i sbardunau gan ddefnyddio deunyddiau gyda dychymyg a dyfeisgarwch a thrwy arsylwi
- defnyddio cyfuniad cyfoethog o sbardunau gan gynnwys y rhai sy'n dod o'r Celfyddydau Mynegiannol, yn ogystal â deunydd a fydd yn ysgogi dehongli creadigol, megis ffotograffau, testunau o'r cyfryngau, naratifau ac arteffactau
- defnyddio eu sgiliau gweledol, clywedol a chinesthetig
- datblygu, cymhwyso, cymryd risg ac ymestyn eu syniadau creadigol mewn gwahanol gyfryngau, gan gynnwys y cyfryngau digidol

- defnyddio offer yn ddiogel gan fod yn ymwybodol o berygl
- defnyddio cyfryngau sy'n gweddu i'w cryfderau unigol ac yn eu galluogi i gyfathrebu/ymateb yn effeithiol
- cymhwyso cysyniadau perthnasol sy'n ymwneud â siâp, nifer a gofod wrth greu gwaith yn y Celfyddydau Mynegiannol.

Cam cynnydd 3

Yn yr adran hon, pan wneir cyfeiriadau at **elfennau** a **ffurfiau** mae'r rhain yn cynnwys ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r canlynol.

Elfennau

Celf: llinell, siâp, gwead, lliw, ffurf (2D, 3D, 4D), patrwm, naws, gofod, cyferbyniad, ailadrodd, cymesuredd, rhythm, cydbwysedd, amrywiaeth, gwerth, pwyslais, harmoni, cynllun, strwythur, persbectif, cyfansoddiad.

Dawns: corff, gofod, amser, dynameg, cydberthynas, egwyddorion symud a dyfeisiau coreograffig.

Ffilm a'r cyfryngau digidol: gofod 3D, sain, goleuadau, camera, naratif, arddull, genre, cynulleidfya, cyfansoddiad (gweledol, rhithwir a sonig), ffurf (animeiddio, ffilmio byw, clywedol, ysgrifenedig), rhith-wirionedd.

Drama: cymeriad, amser, lle, plot, tensiwn, awyrgylch, ffocws, cyferbyniad, tawelwch, cynefin, lefelau, blocio, symud, naws, traw, tempo, acen, seibiannau, iaith y corff, mynegiant, ystum, rhyngweithio, ymateb.

Cerddoriaeth: traw, dynameg, ansawdd, tempo, soniaredd, rhythm, mesur, ffurf a strwythur, melodi, cyweiredd, dyfeisiau cerddorol (e.e. riff, ostinato, dilyniant).

Ffuriau

Celf: paentio, argraffu, cerflunio, lluniadu, ffotograffiaeth, tecstilau, crefft, animeiddio, darlunio, dylunio.

Dawns: cyfeiriad, dynameg, symud, cydberthynas, siâp, dyfeisiau coreograffig.

Ffilm a'r cyfryngau digidol: (Camau cynnydd 1–5 ond â chymhlethdod cynyddol) animeiddio, rhaglen ddogfen, naratif, print, radio/podlediad, realaeth, naturiolaeth, symbolaeth, fideo, ffotograffiaeth, graffeg, ffurfiau rhithwir, ffurfiau llinol, ffurfiau aflinol, dylunio llwyfannau, cyfryngau cymdeithasol, gemau fideo, cynllunio digwyddiadau.

Drama: (Camau cynnydd 1–5 ond â chymhlethdod cynyddol) comedi, trasiedi, trasigomedi, ffars, sioe gerdd, melodrama, meim, opera, bale.

Cerddoriaeth: ffurf ddwyran, cylchoedd, teiran, stroffig.

Mae angen i ddysgwyr brofi:

- perfformio, dangos, rhannu ac arddangos eu gwaith mewn cyd-destunau anffurfiol a ffurfiol
- ymgysylltiad â'r broses creadigol, yn unigol ac ar y cyd, fel y bo'n briodol yn dibynnu ar y ddisgyblaeth a'r cyd-destun dysgu
- defnyddio amrywiaeth o sgiliau ymarferol ym mhob un o ddisgyblaethau'r Celfyddydau Mynegiannol
- cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol sy'n dathlu ac yn hyrwyddo'r Celfyddydau Mynegiannol
- adnoddau sy'n eu hysgogi i gynhyrchu gwaith creadigol sydd wedi'i ysbrydoli gan ddiwylliant Cymru a'r byd.

Efallai y bydd angen i ddysgwyr sydd â thalentau penodol mewn disgyblaethau penodol o'r Celfyddydau Mynegiannol gael hyfforddiant arbenigol er mwyn eu helpu i ddatblygu sgiliau penodol.

Mae angen i ddysgwyr wybod:

- sut i adeiladu ar yr hyn y maent eisoes yn ei wybod a'u sgiliau blaenorol, yn enwedig yn y meysydd hynny lle y bydd angen sylfeini cadarn arnynt o ran technegau a sgiliau er mwyn iddynt eu meistrolï
- sut i gynllunio a pharatoi ar gyfer cynhyrchu gwaith creadigol
- sut i ddefnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu drwy arbrofi ac ymchwilio i lywio eu gwaith creadigol
- sut i wneud dewisiadau am y ffyrdd mwyaf effeithiol o gyfleu eu bwriad
- sut i gyfrannu'n bwrpasol at waith creadigol cydweithredol ac unigol gan gymryd cyfrifoldeb am rolau gwahanol
- sut i ennyn diddordeb cynulleidfau drwy ddefnyddio eu sgiliau mewn disgyblaethau penodol neu ar draws disgyblaethau.

Mae angen i ddysgwyr allu:

- creu gwaith gwreiddiol o sbardun penodol i'w berfformio, ei rannu neu ei gyhoeddi
- mireinio a gwella'r sgiliau sy'n perthyn yn benodol i ddisgyblaeth yn y meysydd hynny lle y bydd angen sylfeini cadarn arnynt o ran technegau a sgiliau er mwyn iddynt eu meistrolï
- cynhyrchu gwaith creadigol o fewn terfynau briff, gan ddangos y gallu i ymateb mewn ffordd llawn dychymyg a chymryd risg
- datblygu sgiliau sy'n perthyn yn benodol i ddisgyblaeth gan gynnwys **elfennau a ffurfiau** er mwyn arddangos eu gwaith
- creu gwaith sy'n cynrychioli diwylliant Cymru a diwylliannau byd-eang gan ddangos amrywiaeth o sgiliau a disgyblaethau
- parhau i ddatblygu eu geirfa sy'n perthyn i ddisgyblaeth benodol sy'n eu helpu i esbonio beth yw eu bwriadau creadigol
- perfformio a rhannu eu gwaith ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd mewn lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol
- defnyddio cyfuniad cyfoethog o ddeunydd ysgogi gan gynnwys deunydd sy'n dod o ddisgyblaethau'r Celfyddydau Mynegiannol, yn ogystal â deunydd a fydd yn ysgogi dehongli creadigol, megis ffotograffau, testunau o'r cyfryngau, naratifau ac arteffactau

- nodi ffynonellau cyfeirio gan ddangos parch at waith creadigol pobl eraill
- cymhwyso cysyniadau perthnasol sy'n ymwneud â siâp, nifer a gofod wrth greu gwaith yn y Celfyddydau Mynegiannol.

Cam cynnydd 4

Yn yr adran hon, pan wneir cyfeiriadau at **elfennau** a **ffurfiau** mae'r rhain yn cynnwys ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r canlynol.

Elfennau

Celf: llinell, siâp, gwead, lliw, ffurf (2D, 3D, 4D), patrwm, naws, gofod, cyferbyniad, ailadrodd, cymesuredd, rhythm, cydbwysedd, amrywiaeth, gwerth, pwyslais, harmoni, cynllun, strwythur, persbectif, cyfansoddiad.

Dawns: corff, gofod, amser, dynameg, cydberthynas, egwyddorion symud, dyfeisiau coreograffig.

Ffilm a'r cyfryngau digidol: gofod 3D, sain, goleuadau, camera, naratif, arddull, genre, cynulleidfâ, cyfansoddiad (gweledol, rhithwir a sonig), ffurf (animeiddio, ffilmio byw, clywedol, ysgrifenedig), rhith-wirionedd.

Drama: cymeriad, amser, lle, plot, tensiwn, awyrgylch, ffocws, cyferbyniad, tawelwch, cynefin, lefelau, blocio, symud, naws, traw, tempo, acen, seibiannau, iaith y corff, mynegiant, ystum, rhyngweithio, ymateb, cymhelliant.

Cerddoriaeth: traw, dynameg, ansawdd, tempo, soniaredd, rhythm, mesur, ffurf a strwythur, melodi, cyweiredd, dyfeisiau cerddorol (e.e. riff, ostinato, dilyniant), harmoni.

Ffuriau

Celf: paentio, argraffu, cerflunio, lluniadu, ffotograffiaeth, tecstilau, crefft, animeiddio, darlunio, graffeg.

Dawns: cyfeiriad, dynameg, symud, cydberthynas, siâp, dyfeisiau coreograffig.

Ffilm a'r cyfryngau digidol: (Camau cynnydd 1–5 ond â chymhlethdod cynyddol) animeiddio, rhaglen ddogfen, naratif, print, radio/podlediad, realaeth, naturiolaeth, symbolaeth, fideo, ffotograffiaeth, graffeg, ffurfiau rhithwir, ffurfiau llinol, ffurfiau aflinol, dylunio llwyfannau, cyfryngau cymdeithasol, gemau fideo, cynllunio digwyddiadau.

Drama: (Camau cynnydd 1–5 ond â chymhlethdod cynyddol) comedi, trasiedi, trasigomedi, ffars, sioe gerdd, melodrama, meim, opera, bale.

Cerddoriaeth: ffurf ddwyran, canon, teiran, stroffig, rondo.

Mae angen i ddysgwyr brofi:

- perfformio, dangos, rhannu ac arddangos eu gwaith mewn cyd-destunau anffurfiol a ffurfiol
- ymgysylltu â'r broses greadigol yn unigol ac ar y cyd fel y bo'n briodol, yn dibynnu ar y ddisgyblaeth a'r cyd-destun dysgu
- gweithdai ymarferol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau rhyngddisgyblaethol a sgiliau sy'n perthyn yn benodol i ddisgyblaeth
- adnoddau sy'n eu hysgogi i gynhyrchu gwaith creadigol gwreiddiol sydd wedi'i ysbrydoli gan ddiwylliant Cymru a'r byd
- cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol sy'n dathlu ac yn hyrwyddo'r Celfyddydau Mynegiannol.

Efallai y bydd angen i ddysgwyr sy'n datblygu talentau penodol mewn disgyblaethau penodol o'r Celfyddydau Mynegiannol gael hyfforddiant neu ddarpariaeth arbenigol er mwyn eu helpu i feistrol'r sgiliau gofynnol.

Mae angen i ddysgwyr wybod:

- am ystyriaethau moesegol priodol a phwysigrwydd ystyriaethau diogelwch wrth greu gwaith creadigol yn y Celfyddydau Mynegiannol a ble y gallant ddod o hyd i'r wybodaeth hon
- yr arddulliau, y confensiynau, yr **elfennau**, y **ffurfiau**, a'r genres sy'n gysylltiedig â disgyblaethau unigol ac ar draws disgyblaethau fel y bo'n briodol
- am ddeunyddiau, offer a thechnolegau, prosesau, technegau a strategaethau i'w galluogi i ddyfnhau'r hyn y maent yn ei wybod a'u dealltwriaeth a'u sgiliau yn y Celfyddydau Mynegiannol
- am bwysigrwydd cyfrifoldeb personol a chyfrifoldeb cyfunol wrth ymgysylltu â'r broses greadigol
- sut i gynllunio a pharatoi ar gyfer cynhyrchu gwaith creadigol
- sut i ddefnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu drwy arbrofi ac ymchwilio i lywio eu gwaith creadigol
- sut i ddewis confensiynau, **elfennau**, **ffurfiau**, genres, technegau, offer a thechnolegau er mwyn creu gwaith sydd â bwriad artistig penodol
- am ddulliau o adeiladu, dyfeisio, cynhyrchu, saernio a llunio gwaith creadigol gyda bwriad
- sut i gyfrannu'n bwrpasol at waith creadigol cydweithredol ac unigol
- sut i gymryd cyfrifoldeb am wahanol agweddau ar y broses greadigol
- am ddynmeg grŵp er mwyn gweithredu mewn ffyrdd cyfunol, creadigol a phroffesiynol gan fynegi eu barnau eu hunain.

Mae angen i ddysgwyr allu:

- creu gwaith gwreiddiol i'w berfformio, ei rannu neu ei gyhoeddi gan fod yn ymwybodol o sut i sicrhau gwerthoedd cynhyrchu uchel
- cynhyrchu gwaith creadigol o fewn terfynau briff, gan ddangos y gallu i ymateb mewn ffordd llawn dychymyg a chynllunio'n effeithiol gan gymryd risg
- dangos ymwybyddiaeth o ddynmeg grŵp er mwyn gweithredu mewn ffyrdd cyfunol, creadigol a phroffesiynol gan fynegi eu barnau eu hunain

- dehongli amrywiaeth o destunau, **elfennau**, **ffurfiau** ac arddulliau creadigol gan ddangos unigoliaeth a gwreiddioldeb
- dewis a defnyddio'r ddisgyblaeth briodol (disgyblaethau priodol) i ddatblygu eu gwaith creadigol eu hunain er mwyn addysgu a llywio cynulleidfia ac effeithio arni
- dewis a defnyddio'r ddisgyblaeth briodol (disgyblaethau priodol) i ddatblygu eu gwaith creadigol eu hunain sy'n dangos eu dehongliad o Gymru a'r byd ehangach
- creu amrywiaeth o gynrychioliadau, gan ddefnyddio'r cyfrwng a'r ddisgyblaeth fwyaf effeithiol
- cyfuno syniadau o ffurfiau gwahanol ar gelfyddyd gan ddefnyddio amrywiaeth o sbardunau o wahanol leoedd a diwylliannau mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang
- defnyddio geirfa a therminoleg sy'n perthyn i ddisgyblaeth benodol i gyfathrebu â chyfoedion ac athrawon/ymarferwyr am eu gwaith creadigol
- perfformio a chyflwyno eu gwaith ag ymdeimlad o unigoliaeth a pherchenogaeth
- deall eu hawliau fel creawdwyr ac esbonio agweddau cyfreithiol a moesegol ar barchu gwaith creadigol
- cymryd cyfrifoldeb am rolau a thasgau penodol o fewn y broses creadigol
- defnyddio cyfuniad cyfoethog o ddeunydd ysgogi gan gynnwys deunydd sy'n dod o'r Celfyddydau Mynegiannol, yn ogystal â deunydd a fydd yn ysgogi dehongli creadigol, megis ffotograffau, cerddoriaeth, testunau o'r cyfryngau, naratifau ac arteffactau
- cymhwyso cysyniadau perthnasol sy'n ymwneud â siâp, nifer a gofod wrth greu gwaith yn y Celfyddydau Mynegiannol fel sy'n briodol i ofynion penodol y ddisgyblaeth dan sylw.

Cam cynnydd 5

Yn yr adran hon, pan wneir cyfeiriadau at **elfennau** a **ffurfiau** mae'r rhain yn cynnwys ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r canlynol.

Elfennau

Celf: llinell, siâp, gwead, lliw, ffurf (2D, 3D, 4D), patrwm, naws, gofod, cyferbyniad, ailadrodd, cymesuredd, rhythm, cydbwysedd, amrywiaeth, gwerth, pwyslais, harmoni, cynllun, strwythur, persbectif, cyfansoddiad, undod.

Dawns: corff, gofod, amser, dynameg, cydberthynas, egwyddorion symud, dyfeisiau coreograffig.

Ffilm a'r cyfryngau digidol: gofod 3D, sain, goleuadau, camera, naratif, arddull, genre, cynulleidfa, cyfansoddiad (gweledol, rhithwir a sonig), ffurf (animeiddio, ffilmio byw, clywedol, ysgrifenedig), rhith-wirionedd.

Drama: cymeriad, amser, lle, plot, tensiwn, naws, ffocws, cyferbyniad, tawelwch, cynefin, lefelau, blocio, symud, naws, traw, tempo, acen, seibiannau, iaith y corff, mynegiant, ystum, rhyngweithio, ymateb, cymhelliant, bwriad, ailddehongli.

Cerddoriaeth: traw, melodi, dynameg, ansawdd, tempo, soniaredd, rhythm, mesur, ffurf a strwythur, melodi, cyweiredd, dyfeisiau cerddorol (e.e. riff, ostinato, dilyniant), harmoni, tonyddiaeth.

Ffuriau

Celf: paentio, argraffu, cerflunio, lluniadu, ffotograffiaeth, tecstilau, crefft, animeiddio, darlunio, graffeg.

Dawns: cyfeiriad, dynameg, symud, cydberthynas, siâp, dyfeisiau coreograffig.

Ffilm a'r cyfryngau digidol: (Camau cynnydd 1–5 ond â chymhlethdod cynyddol) animeiddio, rhaglen ddogfen, naratif, print, radio/podlediad, realaeth, naturiolaeth, symbolaeth, fideo, ffotograffiaeth, graffeg, ffurfiau rhithwir, ffurfiau llinol, ffurfiau aflinol, dylunio llwyfannau, cyfryngau cymdeithasol, gemau fideo, cynllunio digwyddiadau.

Drama: (Camau cynnydd 1–5 ond â chymhlethdod cynyddol) comedi, trasiedi, trasigomedi, ffars, sioe gerdd, melodrama, meim, opera, bale.

Cerddoriaeth: ffurf ddwyran, canon a ffiwg, teiran, stroffig, rondo, thema ac amrywiad, trwy-gyfansawdd, sonata.

Mae angen i ddysgwyr brofi:

- perfformio, dangos, rhannu ac arddangos eu gwaith mewn cyd-destunau anffurfiol, ffurfiol, lleol a byd-eang
- y broses greadigol yn unigol ac ar y cyd fel y bo'n briodol yn dibynnu ar y ddisgyblaeth a'r cyd-destun dysgu
- profiadau dysgu sy'n eu galluogi i ddechrau a chwblhau gwaith yn annibynnol, naill ai fel grŵp neu'n unigol
- y cyfuniad o astudio'r Celfyddydau Mynegiannol a disgyblaethau penodol yn y Celfyddydau Mynegiannol yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol
- gweithdai ymarferol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau creadigol penodol megis sgiliau offerynnol, sgiliau lleisiol, sgiliau technegol, sgiliau perfformio a sgiliau o ran defnyddio cyfryngau celfyddydol gwahanol
- gweithgareddau sy'n eu galluogi i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau ymarferol cydberthynol ym mhob un o ddisgyblaethau'r Celfyddydau Mynegiannol
- adnoddau sy'n eu hysgogi i gynhyrchu gwaith creadigol sydd wedi'i ysbrydoli gan ddiwylliant Cymru a diwylliannau o bob cwr o'r byd
- arwain a chymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol sy'n dathlu ac yn hyrwyddo'r Celfyddydau Mynegiannol.

Efallai y bydd angen i ddysgwyr sydd â thalentau penodol neu ddiddordeb penodol mewn disgyblaethau penodol o'r Celfyddydau Mynegiannol gael hyfforddiant neu ddarpariaeth arbenigol er mwyn eu helpu i feistrolï'r sgiliau gofynnol ym meysydd celf, cerddoriaeth, dawn, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol.

Mae angen i ddysgwyr wybod:

- am ystyriaethau moesegol priodol a phwysigrwydd ystyriaethau diogelwch wrth wneud gwaith creadigol a ble y gallant ddod o hyd i'r wybodaeth hon
- yr **elfennau**, y **ffurfiau**, yr arddulliau, y genres a'r confensiynau sy'n gysylltiedig â disgyblaethau unigol ac ar draws disgyblaethau fel y bo'n briodol
- am brosesau, deunyddiau, offer a thechnolegau, technegau a strategaethau i'w galluogi i ddyfnhau'r hyn y maent yn ei wybod a'u dealltwriaeth a'u sgiliau yn y Celfyddydau Mynegiannol
- am bwysigrwydd cyfrifoldeb personol a chyfrifoldeb cyfunol wrth ymgysylltu â'r broses greadigol
- am ddynameg grŵp er mwyn gweithredu mewn ffyrdd cyfunol, creadigol a phroffesiynol i lunio nodau a rennir a mynd ati i'w cyflawni
- sut i gynllunio a pharatoi ar gyfer cynhyrchu gwaith creadigol, gan gynnwys dechrau gwaith creadigol, pennu eu cerrig milltir eu hunain a chwblhau'r gwaith mewn ffordd hunangyfeiriedig
- sut i ddefnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu drwy arbrofi ac ymchwilio i lywio eu gwaith creadigol
- sut i ddewis offer a thechnolegau, technegau, genres, **elfennau** a chonfensiynau er mwyn creu gwaith sydd â bwriad artistig penodol
- am ddulliau o gynllunio, dyfeisio, saernïo, cynhyrchu, adeiladu a llunio gwaith creadigol gyda bwriad
- sut i gyfrannu'n bwrpasol at waith creadigol cydweithredol ac unigol.

Mae angen i ddysgwyr allu:

- creu gwaith gwreiddiol i'w berfformio, ei rannu neu ei gyhoeddi ym meysydd celf, cerddoriaeth, dawns, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol neu gyfuniad o'r disgyblaethau hyn tra'n ceisio sicrhau gwerthoedd cynhyrchu uchel
- cynhyrchu gwaith creadigol yn annibynnol o fewn terfynau briff, gan ddangos y gallu i ymateb mewn ffordd llawn dychymyg, defnyddio **ffurfiau** ac **elfennau**, cymryd risg, cynllunio'n effeithiol a gweithio o fewn terfynau adnoddau neu gyllideb
- ail-ddehongli amrywiaeth o destunau, **ffurfiau** ac arddulliau gan fynegi eu barnau eu hunain a dangos unigoliaeth a gwreiddioldeb
- dewis a defnyddio'r amgylchedd a'r lleoliad mwyaf priodol i arddangos eu sgiliau penodol yn y Celfyddydau Mynegiannol
- dewis a defnyddio disgyblaeth neu ddisgyblaethau i'w galluogi i feistrolu eu sgiliau creadigol, os yw'n briodol
- defnyddio'r ddisgyblaeth briodol (disgyblaethau priodol) i ddatblygu eu gwaith creadigol eu hunain er mwyn addysgu a llywio cynulleidfa ac effeithio arni
- defnyddio'r ddisgyblaeth briodol (disgyblaethau priodol) i ddatblygu eu gwaith creadigol eu hunain sy'n dangos eu dehongliad o Gymru a'r byd ehangach
- creu amrywiaeth o gynrychioliadau, gan ddefnyddio'r cyfrwng a'r ddisgyblaeth fwyaf effeithiol gan gyfiawnhau eu dewisiadau
- cyfuno syniadau o **ffurfiau** gwahanol ar gelfyddyd gan ddefnyddio amrywiaeth o sbardunau o wahanol leoedd a diwylliannau
- defnyddio geirfa a therminoleg sy'n perthyn yn benodol i ddisgyblaeth i gyfathrebu â chyfoedion ac athrawon/ymarferwyr am eu gwaith creadigol
- perfformio a chyflwyno eu gwaith ag ymdeimlad o unigoliaeth a pherchenogaeth
- deall a myfyrio ar y gwahaniaeth rhwng cymryd ysbrydoliaeth o waith creadigol pobl eraill a defnyddio'r gwaith hwnnw heb ganiatâd, e.e. hawlfraint a defnydd teg
- defnyddio cyfuniad cyfoethog o ddeunydd ysgogi gan gynnwys deunydd sy'n dod o'r Celfyddydau Mynegiannol, yn ogystal â deunydd a fydd yn ysgogi dehongli creadigol, megis ffotograffau, cerddoriaeth, testunau o'r cyfryngau, naratifau ac arteffactau
- cymhwyso cysyniadau perthnasol sy'n ymwneud â siâp, nifer a gofod wrth greu gwaith yn y Celfyddydau Mynegiannol fel sy'n briodol i ofynion penodol y ddisgyblaeth dan sylw
- dangos ymwybyddiaeth o ddynameg grŵp er mwyn gweithredu mewn ffyrdd cyfunol, creadigol a phroffesiynol i lunio nodau a rennir a mynd ati i'w cyflawni.

GEIRFA

Term	Diffiniad
Archwilio'r Celfyddydau Mynegiannol	Ymchwiliad i natur y Celfyddydau Mynegiannol, gwybodaeth am y Celfyddydau Mynegiannol a chaffael y sgiliau angenrheidiol i ymgysylltu â'r ystod o ddisgyblaethau mewn modd ymarferol a damcaniaethol.
Archwilio drwy'r Celfyddydau Mynegiannol	Yn gweithredu sgiliau a gwybodaeth am y Celfyddydau Mynegiannol i lywio a chefnogi creadigrwydd a gwaith creadigol. 'Trwy' y math hwn o archwilio yr ydym yn gallu gwneud cysylltiadau rhyngddisgyblaethol o fewn Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol, yn ogystal â chefnogi cysylltiadau gyda'r meysydd dysgu a phrofiad eraill.
Arddulliau	Y ffordd y caiff rhywbeth ei wneud, ei gyfleu neu ei ddehongli.
Artistiaid	Pobl sy'n creu gwaith mewn unrhyw un o'r disgyblaethau, gan gynnwys y dysgwyr eu hunain.
Confensiynau	Set o ddisgwyliadau diwylliannol sy'n llywio ystyr ar gyfer cynulleidfau.
Cyfryngau celf	Y deunyddiau a ddefnyddir i wneud gwaith creadigol.
Cynodiad	Ystyr ehangach gwrthrych neu ddatganiad.
Cysyniadau sy'n perthyn yn benodol i ddisgyblaeth	Gwybodaeth, syniadau, profiadau a modelau sy'n llunio ac yn llywio'r broses greadigol a'r ffordd y caiff ei dadansoddi.
Diwydiannau creadigol a diwylliannol	Mae diwydiannau creadigol a diwylliannol yn sectorau o'r economi sy'n defnyddio talent greadigol at ddibenion masnachol.
Dull integredig	Dull gweithredu a nodweddir gan yr arfer o addysgu cyfuniad o gelf, cerddoriaeth, dawn, drama a ffilm a'r cyfryngau digidol mewn un wers ac nid ar wahân.
Dull rhyngddisgyblaethol	Dull gweithredu lle mae'r broses greadigol yn cysylltu'r dysgu sy'n digwydd mewn meysydd disgyblaeth unigol.
Dynodiad	Ystyr lythrennol gwrthrych neu ddatganiad.
Elfennau	Elfennau celf, cerddoriaeth, dawn, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol.

Term	Diffiniad
Ffilm a'r cyfryngau digidol	Teledu, ffilm, radio, dylunio gemau, ffotograffiaeth, cynhyrchu digwyddiadau byw, cyfryngau print, cyfryngau cymdeithasol.
Ffurfiâu	Cyfryngau a strwythurau mynegiant creadigol neu artistig, megis paentio, cerfluniaeth, dramâu, creu'n fyrfyr, dawnsiau, caneuon a pherfformiadau.
Genres	Mathau neu gategoriâu o fynegiant artistig a ddiffinnir gan gonfensiwn a disgwyliad ym meysydd celf, cerddoriaeth, dawns, drama, neu ffilm a'r cyfryngau digidol, e.e. rhamantus, realaeth, argraffiadaeth.
Gwaith creadigol	Allbwn y broses greadigol.
Gwerthoedd cynhyrchu uchel	Dull gweithredu proffesiynol â gorffeniad o ansawdd uchel.
Gwybodaeth sy'n perthyn yn benodol i ddisgyblaeth	Yr wybodaeth sy'n siapio a llywio'r broses greadigol a ffyrdd o'i dadansoddi.
Offer a thechnolegau	Amrywiaeth o ddyfeisiau ac offer digidol a dyfeisiau ac offer nad ydynt yn rhai digidol sy'n hwyluso creadigrwydd.
Profiadau dilys	Profiadau dysgu a chyd-destunau bywyd go iawn.
Proses greadigol	Y modd y gwneir gwaith creadigol (celf, cerddoriaeth, dawns, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol).
Sgiliau sy'n perthyn yn benodol i ddisgyblaeth	Sgiliau sy'n siapio a llywio'r broses greadigol a ffyrdd o'i dadansoddi.
Sonig	Natur sŵn a chynhyrchu sain.
Symbolaeth	Y defnydd a wneir o symbolau i greu ystyr mewn gwaith creadigol.
Technegau	Dulliau penodol o gyflawni canlyniad creadigol.
Terminoleg sy'n perthyn yn benodol i ddisgyblaeth	Termau a chysyniadau arbenigol sy'n briodol i bob un o'r disgyblaethau yn y Celfyddydau Mynegiannol. Gall fod ystyr wahanol i eiriau cyffredin ar draws y gwahanol ddisgyblaethau.
Testun creadigol	Gwrthrych neu gynnyrch artistig sy'n darparu llwyfan ar gyfer ystyr a mynegiant (unrhyw beth a gynhyrchir gan ddefnyddio dull creadigol, nid testun ysgrifenedig yn unig).

Term	Diffiniad
Ymarferwyr creadigol	Unigolion neu grwpiau sy'n hwyluso ac yn galluogi creadigrwydd.
Ymatebion creadigol	Ymateb creadigol i sbardun.
Ystyriaethau moesegol	Ystyriaeth o ganlyniad moesegol, cyfreithiol a diwylliannol cynnyrch creadigol yn nhermau ei gynhyrchiad a'i effaith artistig bosibl. Mae ystyriaethau moesegol yn amrywio ar draws y disgyblaethau yn y celfyddydau mynegiannol, ond gallent gynnwys, er enghraifft, faterion bwriadol neu anfwriadol mewn perthynas â'r canlynol: cynrychiolaeth; llên-ladrad a chamddefnydd o eiddo deallusol eraill; syniadau ynghylch tramgwydd, rhagfarn a chamfanteisio; diogelu cynhyrchwyr, perfformwyr a'r gynulleidfa wrth gynhyrchu, perfformio neu arddangos cynnyrch creadigol, neu hyd yn oed y negeseuon a'r gwerthoedd a fwriedir neu a nodir o fewn y gwaith creadigol ei hun.

